# Paid â 'ngwthio i o gwmpas!

Profiadau plant anabl o wasanaethau cadair olwyn yn y DU

Neera Sharma gyda Jan Morrison

Whizz-kidz
move a life forward

Barnardo's Cymru
RHOI'R DYFODOL YN ÔL I'N PLANT
GIVING CHILDREN BACK THEIR FUTURE

Barnardo's yw un o brif elusennau plant y DU, sydd yn cefnogi'r plant dan fwyaf o anfantais trwy ddarparu gwasanaethau lleol a thrwy ymchwil, ymgyrchu a lobïo. Y mae Barnardo's yn rhedeg dros 370 o wasanaethau lleol i blant, ac y mae 60 o'r rhain yn benodol i blant a phobl ifanc anabl a'u teuluoedd. Y mae'r sefydliad mewn cyswllt rheolaidd â thua 10,000 o blant anabl bob blwyddyn trwy ddarparu gwasanaethau megis seibiannau byr (yng nghartref y plentyn ei hun, gyda gofalwyr maeth a baratowyd yn arbennig ac weithiau mewn lleoliad preswyl), gwasanaethau chwarae a hamdden, gofal dydd, a chefnogi pobl ifanc anabl i waith. Yn ogystal â dibynnu ar godi arian i gefnogi eu gwaith, mae Barnardo's yn gweithio mewn partneriaeth ag asiantaethau statudol, ac felly yn derbyn cyllid tuag at ddarparu gwasanaethau i blant anabl mewn rhai ardaloedd. Cynhwysir profiadau llawer o blant anabl yng ngwasanaethau Barnardo's yn yr adroddiad hwn drwyddo draw.

Whizz-Kidz yw'r elusen yn y DU ar gyfer plant a phobl ifanc anabl, sydd yn eu helpu i allu symud yn annibynnol mewn amrywiaeth o ffyrdd, gan gynnwys darparu cyfarpar symudedd megis cadeiriau olwyn gwthio, pŵer a chwaraeon, beiciau a threisiclau. Mae'r elusen yn cynnig hyfforddiant mewn sgiliau cadair olwyn i blant a phobl ifanc, yn rhoi canllawiau a chyngor ar amrywiaeth o faterion symudedd ac anabledd i blant, pobl ifanc a'u teuluoedd, ac yn ymgyrchu ac yn lobïo dros eu hawliau. Nid yw Whizz-Kidz yn derbyn unrhyw gyllid statudol, gan ddibynnu yn llwyr ar arian sy'n cael ei godi trwy ddigwyddiadau, ymddiriedolaethau, corfforaethau ac unigolion. Y mae Whizz-Kidz wedi helpu dros 4,500 o blant ledled y DU. Bob blwyddyn, y mae'n rhoi i dros 400 o blant a phobl ifanc y cadeiriau olwyn a'r cyfarpar symudedd mae arnynt angen, ac yn helpu miloedd mwy trwy gefnogaeth mewn Canolfannau Symudedd, hyfforddiant cadeiriau olwyn, a gwaith cynghori. Y mae'r ffaith fod Whizz-Kidz yn llwyr ddibynnol ar godi arian yn golygu fod ganddynt restr aros. Yn sail i holl weithgareddau'r elusen mae profiadau a barn y plant, pobl ifanc a'u teuluoedd y maent yn gweithio â hwy, ac y mae eu profiadau hwy o ddarpariaeth cadeiriau olwyn yn yr adroddiad hwn drwyddo draw.

# Paid â 'ngwthio i o gwmpas!

## Profiadau plant anabl o wasanaethau cadair olwyn yn y DU

Neera Sharma gyda Jan Morrison

Whizz-kidz
move a life forward

Barnardo's
GIVING CHILDREN BACK THEIR FUTURE

Cyhoeddwyd gan Barnardo's
Tanners Lane
Barkingside
Ilford
Essex
IG6 1QG

Rhif cofrestru elusen 216250

© Barnardo's 2006

Cedwir pob hawl. Ni ddylid atgynhyrchu unrhyw ran o'r cyhoeddiad hwn, na'i gadw mewn cyfundrefn adferadwy heb awdurdod, na'i drosglwyddo ar unrhyw ffurf neu trwy unrhyw ddull heb ganiatâd ymlaen llaw gan y cyhoeddwr.

ISBN 1-904659-36-5

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Rhagair | 4 |
| Crynodeb | 5 |
| Pennod 1 Cyflwyniad | 6 |
| Pennod 2 Y fframwaith deddfwriaethol a pholisi a strwythur gwasanaethau ledled y DU | 9 |
| Pennod 3 Symud: profiad plant a theuluoedd | 12 |
| Casgliad | 25 |
| Y ffordd ymlaen | 26 |
| Atodiad 1 Y fframwaith deddfwriaethol a pholisi ar draws y pedair gwlad | 28 |
| Atodiad 2 Diffiniadau cadeiriau olwyn | 33 |
| Cyfeiriadau | 35 |

# Rhagair

Cydweithredodd Barnardo's a Whizz-Kidz i gynhyrchu'r adroddiad hwn er mwyn amlygu eu pryderon am sefyllfa bresennol y ddarpariaeth cadeiriau olwyn i blant yn y DU a'r angen i weithredu ar frys.

Y mae tua 770,000 o blant anabl yn y DU, (Adran Gwaith a Phensiynau, 2005) sef rhyw un ym mhob ugain o blant. Er ei bod yn anodd dod o hyd i ystadegau dibynadwy, amcangyfrifir y buasai o leiaf 70,000 o blant anabl yn elwa o gyfarpar cadair olwyn a symudedd sydd yn cwrdd â'u hanghenion corfforol a'u dull o fyw (Uned Ymchwil Polisi Cymdeithasol, Prifysgol Caerefrog, 1995).

Amlygodd nifer o adroddiadau a chyhoeddiadau swyddogol dros yr 20 mlynedd a aeth heibio y diffygion (McColl, 1986; Comisiwn Archwilio, 2000, 2002; emPower, 2004; Uned Strategaeth y Prif Weinidog, 2005), ac eto, yn ystod yr amser hwnnw, ni fu unrhyw newid arwyddocaol o ran cyflwyno gwasanaethau cadair olwyn. Canlyniad hyn yw bod plant a phobl ifanc anabl yn dal i wynebu anawsterau lu o ran cael y cyfarpar symudedd iawn ar yr adeg iawn.

Ar waethaf fframwaith polisi a deddfwriaeth sydd yn cefnogi gwell darpariaeth symudedd, a thystiolaeth am bwysigrwydd symudedd yn natblygiad plentyn, profiad llawer o blant anabl yw nad yw'r GIG yn rhoi iddynt gadair olwyn sydd yn cwrdd â'u hanghenion. Canfu *Ordinary lives: disabled children and their families, o* New Philanthropy Capital (Langerman a Worrall, 2005) 'nad yw llawer o blant anabl yn cael y cyfarpar, y therapi na'r cymhorthion cyfathrebu sydd angen arnynt. Gall hyn arafu eu datblygiad a chyfyngu ar eu gallu i gymryd rhan mewn gweithgareddau bob-dydd.'

Y mae Barnardo's a Whizz-Kidz eisiau gofalu fod plant anabl sydd angen cadeiriau olwyn yn cael y cyfarpar iawn, pan fydd arnynt ei angen a heb oedi diangen. Heb newid y ffordd y darperir cadeiriau olwyn ar hyn o bryd, bydd plant anabl yn dal i golli'r cyfle hanfodol i ddatblygu eu potensial a chyrraedd y canlyniadau a ragwelir ar gyfer pob plentyn yng Nghonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn. Ein cred ni yw bod plant anabl yn bwysig, a thrwy gyfrwng yr adroddiad hwn, galwn ar y rhai all wneud gwahaniaeth i sicrhau nad yw plant anabl ar eu colled.



Yr Athro Al Aynsley-Green
Comisiynydd Plant Lloegr

Peter Clarke
Comisiynydd Plant Cymru

Kathleen Marshall
Comisiynydd yr Alban
dros Blant a Phobl Ifanc



Barney McNeany
Comisiynydd a Phrif Weithredwr Dros Dro
Gogledd Iwerddon
Comisiynydd dros Blant a Phobl Ifanc

# Crynodeb

Ysgrifennwyd yr adroddiad hwn gan Barnardo's a Whizz-Kidz er mwyn peri newid yn y gwasanaeth darparu cadeiriau olwyn i blant anabl gydag anghenion symudedd yn y DU.

Yn niffyg tystiolaeth gadarn yn y maes hwn, seilir yr adroddiad ar brofiadau ac anawsterau plant a phobl ifanc anabl sy'n hysbys i'r ddwy elusen. Tra bod yr adroddiad yn argymell bod y Llywodraeth yn comisiynu ymchwil i drefniadaeth, cyflwyno ac effaith darpariaeth cadeiriau olwyn i blant, cred Barnardo's a Whizz-Kidz fod yn rhaid gwrando ar leisiau plant anabl a'u teuluoedd yn awr, gan fod angen dybryd am newid ac am welliannau. Hebddynt, bydd plant anabl gydag anghenion symudedd yn dal i fod ar eu colled, nid yn unig o ran datblygiad personol a phlentyndod, ond hefyd gyda chyfleoedd i dyfu'n fwy annibynnol fel oedolion.

Gyda chefnogaeth y Comisiynwyr Plant ym mhob un o'r pedair gwlad, mae'r adroddiad i ddechrau yn edrych i weld sut y trefnir gwasanaethau cadair olwyn ledled y DU, a'r amrywiadau mewn darpariaeth a meini prawf cymhwyster sydd yn arwain at anghyfartaleddau daearyddol. Trwy arolygon a gwybodaeth o astudiaethau achos, mae'r adroddiad wedyn yn amlinellu'r anawsterau ddaw i ran plant a phobl ifanc, gan gynnwys amseroedd aros am asesiadau, darparu, adnewyddu ac addasu; ac anaddasrwydd y ddarpariaeth cadeiriau olwyn sydd yn seiliedig ar angen clinigol yn unig, heb yn wastad gynnwys atodion hanfodol, cynnal, yswiriant na hyfforddi, ac nad yw'n ystyried dewisiadau plant a phobl ifanc.

Er mwyn i newid ddigwydd, rhaid i'r pedair gwlad weithredu yn awr yr argymhellion sydd yn adroddiad Uned Strategaeth y Prif Weinidog (2005) *Gwella Cyfleoedd Bywyd Pobl Anabl.* Argymhella Barnardo's a Whizz-Kidz ymhellach y dylid cael system i gasglu ynghyd ddata ar nifer y plant sydd angen darpariaeth cadeiriau olwyn ac y dylai cyllid digonol, yn benodol ar gyfer darpariaeth i blant, fod ar gael. Geilw'r adroddiad hefyd am feincnodi darpariaeth cadeiriau olwyn, i gynnwys targedau penodol i fonitro gwasanaethau i blant yn eu herbyn, a therfyna gydag argymhellion penodol ar gyfer pob un o'r cenhedloedd.

Y mae Barnardo's a Whizz-Kidz yn galw am wrando ar leisiau plant a phobl ifanc anabl ynghylch eu profiadau o ddarpariaeth cadeiriau olwyn, ac i rywbeth gael ei wneud rhag blaen. Oni ddigwydd hyn, ni fyddant yn cyrraedd y deilliannau cadarnhaol na'r cydraddoldeb cyfle a ragwelir gan Lywodraeth San Steffan a'r Llywodraethau datganoledig ar gyfer holl blant y DU.

# Pennod 1

## Cyflwyniad

Cynhyrchodd Barnardo's a Whizz-Kidz yr adroddiad hwn er mwyn cael gwell deilliannau i blant a phobl ifanc anabl sydd angen cadeiriau olwyn. Y mae hyn yn cynnwys y sawl sy'n defnyddio cadeiriau olwyn pŵer a llaw neu a allai elwa o wneud hynny, a'r rhai sydd angen cadair olwyn naill ai trwy'r amser neu ar rai adegau.

Ar hyn o bryd, profiad llawer o blant anabl yw na allant gael cadair olwyn addas i'w hanghenion, pan fyddant ei hangen. Y mae Whizz-Kidz yn darparu cyfarpar symudedd yn unig i blant a phobl ifanc nad yw'r gwasanaethau statudol wedi bodloni eu hanghenion. Y mae cynnydd yn y galw am eu gwasanaeth yn arwydd clir fod y GIG yn methu llawer o deuluoedd. Ym mis Awst 2005, anfonwyd holiadur trwy'r post at 1541 o deuluoedd gafodd help Whizz-Kidz. O'r 350 teulu a atebodd, dywedodd 54% na allai eu gwasanaethau lleol gyflenwi'r cyfarpar a ddymunent, a dywedwyd wrth 47% fod cyfyngiadau ar y gyllideb yn rhwystr i fodloni anghenion unigol eu plentyn.

Er y cafwyd mentrau lleol ac amrywiadau mawr o ran comisiynu gwasanaethau, ni chafodd y fformiwla gyllido ar gyfer gwasanaethau cadair olwyn ei hadolygu ers 1991, ar waethaf y cynnydd yn niferoedd y plant anabl a gwell technoleg cadeiriau olwyn: gall cadair pŵer trydan dan do ac allan (CPTDDA), er enghraifft, gostio rhwng £2,500 a £18,000. Mae disgrifiad o'r gwahanol fathau o gadeiriau olwyn y GIG yn Atodiad 2. Cyflwynodd y Llywodraeth flaenorol gynllun talebau i wasanaethau cadair olwyn y GIG yn 1996 ac, ar yr un pryd, cyhoeddasant gyllid ychwanegol i ddarparu CPTDDA. Fodd bynnag, dim ond am bedair blynedd y cafodd y cyllid hwn ei neilltuo; wedi hynny, fe'i amsugnwyd i'r cyllido cyffredinol ar gyfer cadeiriau olwyn. Mae llawer gwasanaeth cadair olwyn yn dal i gynnig talebau ond, dan y cynllun, dywed teuluoedd eu bod hwy fel rheol yn gorfod ychwanegu at yr arian eu hunain (naill ai trwy eu hincwm eu hunain neu arian elusennol) gan mai anaml y mae'r swm a ddyfernir yn talu am holl anghenion eu plentyn.

Arweiniodd y diffyg cyllid i wasanaethau cadair olwyn, sy'n gorfod ateb anghenion oedolion a phlant yn eu hardaloedd, at feini prawf cymhwyster llym. Y mae hyn yn aml yn gwahaniaethu yn erbyn plant ifanc yn arbennig, gan olygu darpariaeth annigonol neu ddim darpariaeth o gwbl, ar waethaf yr holl dystiolaeth am bwysigrwydd ymyrraeth gynnar. Rhoddir pwyslais ar ymyrraeth gynnar yn Safon 1 y *Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol (FfGC) ar gyfer Plant, Pobl Ifanc a Gwasanaethau Mamolaeth*, a ddywed 'Mae iechyd a lles pob plentyn yn cael ei hybu a'i gyflwyno trwy raglen weithredu gytûn, gan gynnwys atal ac ymyrraeth gynnar lle bynnag y bo modd, er mwyn cael enillion yn y tymor hir, dan arweiniad y GIG mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol'.[1]

Hefyd, mae'r ddarpariaeth yn canolbwyntio yn rhy drwm ar angen clinigol, gan fethu yn aml ag ystyried anghenion datblygiadol, addysgol a chymdeithasol y plentyn unigol. Mae methu â chymryd rhan yn llawn mewn gwersi gwyddoniaeth neu chwaraeon, neu gymryd rhan yn ochr gymdeithasol bywyd yr ysgol oherwydd problemau mynediad a'r angen i gael cymhorthydd o oedolyn yno o hyd, yn ei gwneud yn anos o lawer gwneud ffrindiau a chael eich cynnwys yn llawn.

[1].www.dh.gov.uk/PolicyAndGuidance/HealthAndSocialCareTopics/ChildrenServices/ChildrenServicesInformation/ChildrenServicesInformationArticle/fs/en?CONTENT_ID=4089111&chk=U8Ecln

Er bod llawer o staff yng ngwasanaethau cadair olwyn y GIG, a'r Patrwm Anabledd Cymhleth[1.], yn cydnabod mai gwasanaeth annigonol gaiff plant, fe'u cyfyngir gan ddiffyg cyllid digonol, gan gefnogi teuluoedd i ymgeisio am arian elusennol yn lle hynny. Golyga diffyg meincnodi neu agenda o dargedau i wasanaethau cadair olwyn nad oes fawr o gymhelliad nac ymrwymiad i newid yn aml ar lefel strategol ac yn y prosesau comisiynu. Cydnabuwyd y problemau hyn o ran darpariaeth cadeiriau olwyn, ac arweiniodd at sefydlu'r Gwasanaethau Cydweithredol Cadeiriau Olwyn ym mis Tachwedd, sydd wedi gwella gwasanaethau yn sylweddol.
Sefydlwyd pedwar-deg-pump o dimau ar ddiwedd Tachwedd 2002 i wneud gwelliannau sylweddol yn y gwasanaethau. Fe'i datblygwyd mewn partneriaeth ag Asiantaeth Foderneiddio'r GIG, yr Adran Iechyd a'r Comisiwn Archwilio, a gwnaeth y rhaglen ar gyfartaledd welliannau o 25 y cant o leiaf mewn perfformiad sylfaenol mewn pedwar maes: profiad cyffredinol, lleihau oedi, defnydd effeithlon o adnoddau a deilliannau. Er i'r gwaith gael ei grynhoi yn ganllaw arfer da, ni roddwyd adnoddau ychwanegol i beri bod pob gwasanaeth cadair olwyn yn dilyn y model arfer da a ddatblygwyd gan y Gwasanaeth Cydweithredol (Asiantaeth Foderneiddio'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol, 2003).

Mae'r gadair olwyn, pan fyddant ei hangen, yn amlwg yn hanfodol os yw plant â nam symud i gyrraedd y deilliannau angenrheidiol i bob plentyn. Y mae gan bob un o'r pedair gwlad strategaeth berthnasol:

- Y mae gan Loegr bum deilliant *Every Child Matters:* bod yn iach; aros yn ddiogel; mwynhau a llwyddo; gwneud cyfraniad cadarnhaol; ac ennill lles economaidd.
- Mae gan yr Alban *Vision for Children,* sy'n cynnwys cyrhaeddiad a bod yn fywiog.
- Yng Ngogledd Iwerddon, datblygir strategaeth ddeng-mlynedd gan Swyddfa'r Prif Weinidog a'r Dirprwy Brif Weinidog. Bydd yn ymdrin â deilliannau ym meysydd: addysg; iechyd; dysgu a mwynhau; lles economaidd ac amgylcheddol; gwneud cyfraniad cadarnhaol i gymdeithas; a diogelwch a sefydlogrwydd.[2.]
- Y mae gan Gymru y *Saith Amcan Craidd ar gyfer Plant a Phobl Ifanc.*[3.]

Nodwedd bwysig cadeiriau olwyn pŵer a rhai llaw nad ydynt yn cael eu gwthio gan rywun arall yw eu bod yn cael eu gyrru gan y plant neu'r bobl ifanc eu hunain, fel y gallant fod mor annibynnol ag sy'n gyson â'u hoedran. Y dadleuon dros ymyrraeth gynnar lle mae nam symudedd sylweddol (yn enwedig yn achos plant ifanc) yw y gall ymyrraeth o'r fath hwyluso datblygiad seico-gymdeithasol arferol, a helpu i ddynwared patrwm datblygiadol plant nad ydynt yn anabl (Warren, 1990). Mae'r FfGC yn gosod safonau ar gyfer ymyrraeth gynnar.[4.]

1. DH/OFES, 2005
2. http://www.allchildrenni.gov.uk/strategy.pdf
3. www.cymru.gov.uk/subichildren/content/core-aim-e.htm
4. www.dh.gov.uk/PublicationsAndStatistics/Publications/PublicationsPolicyAndGuidance/PublicationsPAmpGBrowsableDocument/fs/en?CONTENT_ID=4094329&MULTIPAGE_ID=486561 4&chk=ZKP5mL

Ni wnaed digon o ymchwil ym maes symud â phŵer i blant a phobl ifanc anabl, er y bu nifer fechan o astudiaethau oedd yn edrych ar sut y mae plant yn dysgu defnyddio cadeiriau olwyn pŵer ac effeithiau defnyddio cadair olwyn ar eu datblygiad yn gyffredinol. Awgryma tystiolaeth yr ymchwil y gall plant ifanc iawn, hyd yn oed, ddysgu defnyddio cadeiriau olwyn pŵer a bod gwell symudedd yn arwain at fanteision pendant mewn meysydd datblygu eraill (Butler et al, 1983; Bottos et al, 2001; Jones et al, 2003).

Maes arall lle na chafwyd digon o ymchwil yw rôl gweithwyr proffesiynol gyda chadeiriau olwyn a'u hymwneud â rhieni a phlant ac i ba raddau y mae ganddynt olygweddau gwahanol. Dangosodd astudiaeth oedd yn cymharu barn rhieni a therapyddion am gyfundrefn seddi unigol eu plant (McDonald et al 2003) fod pryderon rhieni am systemau seddi eu plant yn canolbwyntio ar faterion rheoli ymarferol beunyddiol, tra bod y therapyddion yn poeni fwy am bynciau technegol a rheoli osgo.

Fodd bynnag, y mae astudiaethau clinigol a barn arbenigwyr yn ategu'r farn y gall plant sydd heb fedru symud yn annibynnol ers cyfnod plentyndod cynnar 'ddysgu diymadferthedd', cyflwr sydd yn peri iddynt golli diddordeb, cilio i'w cragen a dod yn ddibynnol ar eraill. Gallant yn aml fod yn y cyflwr hwn pan fyddant wedi tyfu'n oedolion. Y mae pobl ifanc anabl ddwywaith yn fwy tebygol na phobl ifanc nad ydynt yn anabl i beidio â bod mewn addysg, gwaith neu hyfforddiant (Godfrey et al, 2002).

Mae bywyd heb allu symud yn annibynnol yn golygu fod plant anabl mewn gwirionedd yn colli cael plentyndod, ac yn cael llai o gyfle mewn bywyd. Mae'n amlwg fod yn rhaid i hyn newid.

# Pennod 2

## Y fframwaith deddfwriaethol a pholisi a strwythur gwasanaethau ledled y DU

Mae'r bennod hon yn datgan beth yw'r fframwaith deddfwriaethol a pholisi, ac yn edrych ar sut y trefnir gwasanaethau cadair olwyn ledled y DU. Y mae'n amlwg fod amrywiadau mewn deddfwriaeth a pholisi yn ogystal â'r gwasanaeth a ddarperir, yn enwedig gweithredu gwahanol feini prawf cymhwyster ar gyfer darparu cadeiriau olwyn i blant, yn golygu anghyfartaledd daearyddol.

### Y fframwaith deddfwriaethol a pholisi ar draws pedair cenedl y DU

Gweler Atodiad 1 am archwiliad manwl o bolisi a deddfwriaeth ledled y DU.

Y mae set o argymhellion cynhwysfawr yn adroddiad Uned Strategaeth y Prif Weinidog *Gwella Cyfleoedd Bywyd Pobl Anabl* (2005) yn berthnasol ar draws y pedair gwlad. Yn Lloegr, mae Safon 8 y *Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol ar gyfer Plant a Gwasanaethau Mamolaeth* (Adran Iechyd ac Adran Addysg a Sgiliau, 2004) yn gosod allan nifer o gamau i gomisiynwyr a darparwyr cyfarpar, gan gynnwys cadeiriau olwyn. Fodd bynnag, mae'r FfGC ar gyfer Cymru yn gliriach o lawer ac yn fwy rhagnodol na FfGC Lloegr gan ei fod yn gosod amserlenni penodol ar gyfer cyflwyno. Mae deddfwriaeth ddiweddar yr Alban *Cefnogaeth Ychwanegol i Ddysgu* yn gosod cyfrifoldebau newydd ar adrannau Iechyd ac Addysg i weithio ynghyd i ddarparu cyfarpar symudedd, os oes ei angen i alluogi plentyn i gyrchu addysg. Mae adolygiad presennol yr Alban o wasanaethau cadair olwyn y GIG wedi sylwi fod plant a phobl ifanc yn 'fwlch mawr' yn y ddarpariaeth bresennol. Cafodd darparu gwasanaethau cadair olwyn yng Ngogledd Iwerddon (GI) ei dywys gan ddeddfwriaeth sydd yn cynnwys deddfwriaeth anabledd a deddfwriaeth plant. Dros gyfnod o amser, nododd nifer o adroddiadau lefel o anfodlonrwydd ymysg defnyddwyr cadeiriau olwyn yn GI.

### Strwythur gwasanaethau cadair olwyn yn y DU

Yn Lloegr, yr Awdurdodau Iechyd Strategol sydd yn penderfynu faint o gyllid sydd i'w neilltuo ar gyfer gwasanaethau cadair olwyn, ac yna mae'r Ymddiriedolaethau Gofal Sylfaenol (YGS) yn gyfrifol am gomisiynu darparwyr y gwasanaeth yn lleol. Yn yr Alban gorwedd y cyfrifoldeb am gomisiynu gyda Byrddau Iechyd Lleol, yng Nghymru gyda'r Byrddau Iechyd Lleol a Chomisiwn Iechyd Cymru, gyda'r Byrddau a'r Ymddiriedolaethau Gwasanaethau Cymdeithasol yng Ngogledd Iwerddon. Y mae gwasanaethau cadair olwyn yn amrywio yn fawr o ran maint, o 1,500 i dros 42,000 o ddefnyddwyr. Rhaid i'w cyllideb a neilltuir yn flynyddol dalu am anghenion symudedd plant ac oedolion yn eu hardal, ac er na chaniateir gwahaniaethu ar sail oedran ynddo'i hun, mae llawer gwasanaeth cadair olwyn wedi mabwysiadu meini prawf cymhwyster sydd yn atal plant rhag cael y cyfarpar mae arnynt ei angen. Mae plant sy'n byw mewn ardaloedd lle lleolir darpariaeth gwasanaeth cadair olwyn mewn gwasanaethau llym yn dioddef yn arbennig o ddrwg, gan fod cyllid ar gyfer eu hanghenion cyfarpar symudedd yn cystadlu â chyllid ar gyfer anghenion llym, sydd yn golygu anghyfartaledd daearyddol mewn darpariaeth cadeiriau olwyn.

Yn Lloegr, dylai Ymddiriedolaethau Plant fod â rhan allweddol mewn comisiynu cyfarpar cadeiriau olwyn a symudedd ar draws iechyd ac addysg, a gofalu ei fod yn cael ei ddarparu gan weithlu sydd yn fedrus yn anghenion cyfarpar plant anabl. Yn yr Alban, ymatebodd Gwasanaeth Cadeiriau Olwyn Lothian (Technoleg Galluogi i Blant) i bryderon defnyddwyr trwy wahanu darpariaeth plant oddi wrth y ddarpariaeth oedolion. Mae'n destun siom na chafodd y gwasanaeth unswydd hwn i blant, yr unig un o'i fath yn y DU, erioed ei werthuso a'i fod yn dal i ddioddef problemau cyllido.

## *Esiamplau o amrywiadau mewn meini prawf a ddefnyddir gan wasanaethau cadair olwyn*

Yn Awst 2005 cynhaliodd Whizz- Kidz arolwg o wasanaethau cadair olwyn yn y DU, a dengys y crynodebau a ganlyn o'r meini prawf a ddefnyddir y gwahaniaethau rhwng gwahanol ardaloedd. Hyd yn oed lle nad oes bwlch mawr rhwng gwahanol feini prawf cymhwyster, mae'r modd y dehonglir y meini prawf gan weithwyr proffesiynol yn allweddol wrth bennu a yw plant yn cael y gwasanaeth mae arnynt angen neu beidio..

## Gwasanaeth cadair olwyn yn Ne Lloegr

### Meini prawf darpariaeth bediatrig

Bydd y gwasanaeth cadair olwyn yn ymdrechu i gwrdd ag anghenion clinigol a dull byw y plentyn pan fydd y nam symudedd yn un tymor-hir a bod arno/i angen cadair olwyn neu goets i symud yn annibynnol gan ei g/yrru ei hun neu at ddibenion dros dro.

- Pan na fedr plentyn ei yrru ei hun neu os oes ganddo/i y potensial i yrru cadair olwyn bŵer, ystyrir y dewis hwnnw.
- Os na fedr plentyn eistedd heb gynhaliaeth, neu y gall camffurfiad ddatblygu, bydd angen seddi arbennig, naill ai glustogau neu rywbeth a osodir yn y sedd i gynnal yr osgo. Gallai hyn fod yn eitem sydd ar gael yn fasnachol neu system unswydd.
- Darperir coetsys yn unig i blant iau na 3 oed os oes angen penodol i gynnal yr osgo.
- Un gadair olwyn neu goets wthio yn unig a gyflenwir i bob plentyn, i'w defnyddio ym mhob amgylchedd, h.y., ysgol, cartref.
- Darperir coetsys dwbl yn unig lle bo gan y ddau blentyn anghenion clinigol penodol. Darperir hambyrddau ar gyfer anghenion osgo yn unig.

## Gwasanaeth cadair olwyn yn Rhanbarth Canolbarth Lloegr

### Meini prawf darpariaeth bediatrig

'Cyflenwir cadeiriau olwyn heb bŵer i blant yn dilyn asesiad clinigol. Gwneir darpariaeth ar gyfer pob plentyn sydd angen seddi arbennig. Ni fydd y Gwasanaeth Cadeiriau Olwyn yn darparu coetsys sydd ar gael yn fasnachol.'

CPTDDA: 'Defnyddwyr a asesir fel rhai a fedr ddefnyddio CPTDDA yn ddiogel ac yn annibynnol yn eu cartref a'u hamgylchedd lleol … defnyddwyr sydd â'r gallu i reoli'r gadair heb oruchwyliaeth, ac eithrio yn achos plant, lle mae angen i'r rhieni oruchwylio.'

## Gwasanaeth cadair olwyn yn Ne-Orllewin Lloegr

Coetsys a chadeiriau olwyn i blant: 'Bydd meini prawf safonol y GIG am ddarpariaeth cadeiriau olwyn safonol yn gymwys lle bo'r canlynol yn wir am blentyn 1) na all gerdded neu fod oedi yn ei allu i gerdded neu 2) fod ganddo gyflwr meddygol sy'n cyfyngu ar ei symudedd o'i gymharu â'i gyfoedion, e.e., diffyg ar y galon, neu 3) gofynion osgo na ellir eu bodloni gan goets fasnachol safonol.'

Coetsys dwbl: 'ystyrir eu rhoi dan amgylchiadau eithriadol yn unig, e.e., lle bo gan y ddau blentyn broblem symudedd'.

Ni fydd CPTDD [Cadeiriau Pŵer Trydan Dan Do] (i blant): 'fel arfer yn cael eu rhoi yn unig i'w defnyddio mewn ysgol'.

Mae rhai gwasanaethau yn gosod terfynau oed. Er enghraifft, dywed un gwasanaeth cadair olwyn 'fod yn rhaid i gleientiaid fod dros 30 mis oed'. Y rhesymeg y tu ôl i hyn yw y bydd plant ifanc nad ydynt yn anabl mewn coetsys masnachol yn yr oed hwn ac felly yr atebir eu hanghenion symudedd yn yr un modd ag ar gyfer pob plentyn, anabl neu beidio. Y mae'n bwysig felly newid yr agwedd hon fel bod gweithwyr proffesiynol yn gweld fod symud yn annibynnol yn y cartref yn bwysig.

Y mae llawer yn gosod meini prawf ar gyfer defnyddio CPTDDA sydd yr un fath â'r rhai a ddefnyddir ar gyfer oedolion, er enghraifft: 'Bydd gan bob ymgeisydd o leiaf 6 mis [sic] o brofiad o ddefnyddio CPTDD cyn dod yn gymwys am asesiad CPTDDA, onid ydynt eisoes yn llwyddo i ddefnyddio cadair olwyn drydan dan do ac allan … caiff cleientiaid eu hasesu a byddant yn gallu dangos ymwybyddiaeth o ddiogelwch y ffordd'.

Mae meini prawf o'r fath yn amlwg yn methu ag ystyried y ffaith fod plant ifanc anabl, yn union fel pob plentyn arall, yn cael eu hamddiffyn rhag peryglon megis traffig y ffyrdd gan eu rhieni. Tra bod plant heb fod yn anabl yn cael cyfle i ddysgu sut i reidio beic neu sglefrolio dan oruchwyliaeth eu rhieni, atelir plant anabl rhag dilyn gweithgareddau fyddai yn eu galluogi i ymchwilio i'r byd o'u cwmpas trwy gymryd 'risgiau' addas i'w hoed. Mae atal plant anabl rhag cael cyfarpar symudedd pan mae arnynt ei angen yn golygu eu bod yn colli profiadau datblygu pwysig, ac y mae hyn yn eu gosod ar wahân i'w cyfoedion nad ydynt yn anabl.

# Pennod 3

## Symud: profiad plant a theuluoedd

Mae'r bennod hon yn archwilio canfyddiadau o arolygon a wnaed gan Barnardo's a Whizz-Kidz. Y mae'n amlwg fod plant anabl yn dioddef oedi hir cyn cael asesiad cychwynnol. Dilynir hyn yn aml gan oedi maith pellach cyn i'r gadair olwyn neu gadair olwyn newydd gyrraedd. Hyn yn oed pan ddaw'r gadair olwyn yn y diwedd, nid oes gwarant y bydd yn addas a bod yr holl ategolion angenrheidiol yno. Mae asesu fel arfer wedi ei seilio ar angen clinigol yn hytrach nac ar leisiau a dewisiadau plant a'u teuluoedd. Y mae'r holl broses yn straenllyd iawn i'r teuluoedd dan sylw. Yn bwysicaf oll, y mae'n effeithio ar y deilliannau i blant anabl ac yn gwadu iddynt brofiadau cadarnhaol o blentyndod.

## Cyflwyniad: sail yr adroddiad hwn

Nid oes ymchwil sylweddol yn bodoli ar effaith darpariaeth cadeiriau olwyn i blant a phobl ifanc anabl, a dylai comisiynu ymchwil fod yn flaenoriaeth uchel i'r Llywodraeth (Krey a Calhoun, 2004).

Ni chedwir ystadegau ar draws yr holl wasanaethau cadair olwyn, ac y mae lefelau angen (a allai gael eu hadlewyrchu mewn patrymau cyfeirio, rhestri aros a derbyn gwasanaeth) yn cael eu drysu gan systemau asesu a chyfeirio a meini prawf gwasanaeth lleol. Gall y rhain oll gael dylanwad ar a yw cyfeirio yn digwydd neu beidio (Nicholson a Bonsall, 2002; Asiantaeth Foderneiddio'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol, 2004; Fforwm Genedlaethol Rheolwyr Cadeiriau Olwyn et al, 2005; Stancliffe, 2003).

Ym mhrofiad Barnardo's a Whizz-Kidz nid dim ond nifer y plant sy'n defnyddio cadeiriau olwyn sy'n broblem i'w nodi yn union. Dengys data ar nifer y plant anabl yn gyffredinol amrywiant sy'n peri pryder.

Yn niffyg tystiolaeth o'r fath, seilir y wybodaeth yn yr adroddiad hwn ar astudiaethau achos, ymateb a gwybodaeth gan blant, pobl ifanc a'u teuluoedd sy'n hysbys i Whizz-Kidz dros y tair blynedd ddiwethaf ac o arolwg a wnaed gan Barnardo's yn ystod hydref 2005. Cafodd teuluoedd oedd yn hysbys i 60 o wasanaethau Barnardo's ledled y DU holiaduron am eu profiad o wasanaethau cadair olwyn, a dychwelwyd 35 o holiaduron wedi eu llenwi. Yn ychwanegol at hyn, dangosodd archwiliad a gynhaliwyd gan Barnardo's o'i wasanaethau yn ystod haf 2005, o 45 o wasanaethau i blant anabl, fod 448 o'r plant oedd yn cyfranogi o'r gwasanaethau hyn yn defnyddio cadeiriau olwyn. O'r nifer hwn, yr oedd 68 yn defnyddio cadeiriau olwyn pŵer, 58 o blant yn defnyddio cadeiriau olwyn pŵer a gwthio, a 322 o blant yn defnyddio cadeiriau olwyn gwthio. Dim ond 18 o gyfanswm y nifer hwn o ddefnyddwyr cadeiriau olwyn oedd dan bump oed. Yr oedd naw o blant yn disgwyl am ddarpariaeth cadeiriau olwyn. Daw'r esiamplau o achosion sydd yn yr adroddiad hwn o ardaloedd ledled y DU, ond fe'u gwnaed yn ddienw.

# Crynodeb o ganfyddiadau o Barnardo's a Whizz-Kidz

Dengys canfyddiadau'r arolygon hyn, ar waethaf y fframweithiau deddfwriaethol a pholisi ym mhedair cenedl y DU, fod llawer o blant heb fod yn derbyn gwasanaethau cadair olwyn amserol ac addas. Dyma'r pwyntiau a godwyd o wybodaeth gan y naill gorff a'r llall:

- Oedi: mae plant anabl yn gorfod aros amser maith am gadeiriau olwyn newydd, am asesiadau a chadeiriau olwyn yn lle hen rai, ac am addasiadau
- Y gadair olwyn iawn i'r plentyn iawn: mae llawer o blant a theuluoedd heb fod yn cael y gadair olwyn iawn a'r ategolion hanfodol y mae arnynt eu hangen gan y GIG
- Anaml yr ystyrir safbwynt y teulu a'u hanghenion hwy; blaenoriaeth isel a roddir yn aml i faterion cysylltiedig megis cynnal, yswiriant a hyfforddiant, neu fe gânt eu hanwybyddu
- Rhaid rhoi blaenoriaeth uwch o lawer i leisiau a dewisiadau plant.

## Oedi

### *Amseroedd aros am gadeiriau olwyn newydd*

> "Pam ei bod hi'n cymryd cymaint o amser pan fo rhywun yn dweud ei bod hi'n flaenoriaeth? Ydy hi'n cymryd bron i flwyddyn i gael cadair? Roedd yn rhaid i mi fod yn anghyfforddus ac yn gaeth i'r tŷ weithiau am iddi gymryd cymaint o amser i ddod â 'nghadair, sy'n dal ddim yn gyflawn. I ddweud y gwir, mae arna'i angen cadair olwyn drydan am 'mod i mor drwm rŵan i mam orfod fy ngwthio."
> (Plentyn, 9 oed, sydd â namau difrifol ac epilepsi)

Dangosodd yr ymateb i arolwg Barnardo's fod teuluoedd yn gweld amrywiadau mewn gwasanaeth, yn enwedig o ran derbyn cadeiriau olwyn, cyfeirio ac adnewyddu cadeiriau olwyn oedd ganddynt eisoes. Bu'r plant a'r bobl ifanc hyn yn aros amser maith o'r pryd y cawsant eu cyfeirio hyd at gael y gadair olwyn. Chwe mis, ar gyfartaledd, oedd yr amser aros i ymatebwyr, a hyn yn cael ei ddilyn yn agos gan amseroedd aros o rhwng chwech a naw mis. Bu bachgen 10 oed yn aros 10 mis am gadair olwyn bŵer a 14 mis am un wthio ar wahanol adegau, er iddo gael un yn ei lle. Y cyfnod aros byrraf oedd un i blentyn 11 oed a dderbyniodd gadair olwyn ymhen pedair i bum wythnos o'r dyddiad archebu. Hyd yn oed pan fydd cadair olwyn yn cyrraedd, 'does dim gwarant fod y disgwyl ar ben:

> "Y gadair olwyn bresennol, oddeutu 4 mis, ond pan gyrhaeddodd, yr oedd wedi ei ffitio yn anghywir, rhaid oedd ei newid ddwywaith ac yr ydym yn dal i aros bum mis yn ddiweddarach am y glustog iawn … fe gawsom asesiadau ac yna pan ddaw'r cadeiriau olwyn, bob tro mae'n rhaid eu hail-addasu"
> (Merch, 15 oed, sydd â spina bifida)

Gall teuluoedd wynebu anawsterau hefyd pan fydd arnynt angen gwasanaethau mewn gwahanol ardaloedd daearyddol. Mae anghysonderau gwasanaethau cadair olwyn, gan gynnwys gwahanol feini prawf cymhwyster, yr anghyfartaleddau daearyddol, a threfniadau trwsio a chynnal, yn golygu fod plant a phobl ifanc yn wynebu cryn broblemau os byddant yn newid ysgol neu yn gadael cartref i fynd i'r brifysgol. Nid oes cytundeb safonol am ba wasanaeth cadair olwyn sydd wedyn yn gyfrifol.

> "Mae'r drefn o gael ardaloedd penodol y GIG yn delio â'r cwmnïau trwsio cadeiriau olwyn perthnasol yn golygu biwrocratiaeth ormodol pan fydd plentyn yn symud allan o'r ardal dros dro, i'r ysgol, dyweder, neu i ysbyty/seibiant/hosbis"
> (Rhiant plentyn, 6 oed, sydd â namau lluosog)

Y mae'n amlwg o'n canfyddiadau nad yw'r *Safonau Gofal Iechyd* o ran arfer da i wasanaethau cadair olwyn dan y GIG yn cael eu dilyn. Noda'r rhain isafswm amseroedd ymateb: dylai archebion o stoc a ddelir yn lleol gymryd 15 diwrnod gwaith; archebion gan y gwneuthurwyr 30 diwrnod gwaith; a rhai wedi eu gwneud yn unswydd rhwng 30 a 65 diwrnod gwaith (Fforwm Genedlaethol Rheolwyr Cadeiriau Olwyn et al, 2005).

## *Aros am asesiad*

Bu'n rhaid i lawer o deuluoedd oedi cyn cael eu cyfeirio i'w hasesu. Er enghraifft, cafodd merch 2 flwydd a 9 mis oed, oedd â diagnosis o hyperglycinaemia anghetotig (NKH), ei chyfeirio i gychwyn yn haf 2005, cafodd ei ffitio ym mis Hydref ac yr oedd yn disgwyl i'w chadair olwyn gyrraedd yn Chwefror 2006. Bydd yplentyn wedi gorfod aros am gyfnod sydd yn cyfateb i bron chwarter ei hoes hyd yma. Mae'r *Safonau Gofal Iechyd* (Fforwm Genedlaethol Rheolwyr Cadeiriau Olwyn et al, 2005) yn argymell isafswm amser aros o 15 diwrnod gwaith o dderbyn y cyfeirio tan yr asesu.

Yr oedd rhieni efaill 9 oed sydd â pharlys yr ymennydd ac a gyfeiriwyd ym mis Awst 2005 yn dal i ddisgwyl am apwyntiad ym mis Rhagfyr.

> "Mae'n rhaid i asesiadau ddigwydd yn gynt o lawer, gan fod plant yn prifio'n gyflym ac y gall cadair olwyn nad yw'n ffitio'n iawn fod yn boenus ac achosi niwed"
> (Rhywun 14 oed, sydd â pharlys yr ymennydd a nam ar y golwg, fu'n disgwyl wyth mis)

> "Rhaid i'r system gyfeirio newid, mae'n amser rhy faith i aros i weld rhywun ynghylch seddi arbennig"
> (Rhiant plentyn 5 oed, fu'n aros naw mis)

## *Aros am gadeiriau olwyn newydd ac addasiadau*

Wrth i blant brifio neu i'w hanghenion newid, bydd arnynt angen cadeiriau olwyn o'r newydd. Eto, dangosodd yr ymateb i arolwg Barnardo's fod amseroedd aros yn aml yn faith. Er enghraifft, bu un plentyn 6 oed yn aros bedwar mis yn wreiddiol am gadair olwyn a deufis wedyn am un yn ei lle pan dorrodd. Mae plentyn 6 oed arall sy'n byw mewn gofal maeth yn defnyddio cadair olwyn wedi torri am ei fod yn disgwyl aros dri i bedwar mis am un newydd.

Bydd Whizz-Kidz yn adolygu'r cyfarpar a ddarparodd wrth i anghenion y plentyn neu'r person ifanc newid. Gall y teulu neu'r therapydd lleol ofyn am adolygiadau, ac fe'u cynhelir ar y cyd â'r gwasanaeth cadair olwyn lleol lle bo hynny'n briodol. Fodd bynnag, y mae Whizz-Kidz yn dibynnu ar roddion elusennol, ac ni all felly yn wastad ymateb mor fuan ag y carai.

## *Pwysigrwydd ymyrraeth gynnar*

Cydnabu Llywodraeth San Steffan a'r Llywodraethau datganoledig rôl hanfodol ymyrraeth gynnar. Adlewyrchir hyn yn Strategaeth 10-mlynedd Gofal Plant Lloegr ac yn Safon 1 y FfGC ac, yng Nghymru, yn Safon 1 y FfGC Cymreig a'r Saith Amcan Craidd ar gyfer Plant a Phobl Ifanc. Yng nghyfnod nesaf Cychwyn Cadarn, bydd rhaglenni lleol yn cael eu hymestyn i rwydwaith genedlaethol o 3,500 o Ganolfannau Plant. Bydd y rhain yn adeiladu ar y gorau o Raglenni Lleol Cychwyn Cadarn (RhLICC) fu'n cynnig ystod eang o wasanaethau blynyddoedd cynnar, iechyd, magu plant a chefnogaeth deuluol i blant a theuluoedd mewn ardaloedd difreintiedig (Y Trysorlys a'r Adran Addysg a Sgiliau, 2005).

Dengys y gwersi cynnar o Werthuso Cenedlaethol Cychwyn Cadarn (NESS) fod addysg gynnar o ansawdd uchel yn gwneud gwahaniaeth mawr i fywydau plant, yn enwedig y rhai sy'n tyfu dan anfantais (www.ness.bbk.ac.uk). Y mae niferoedd anghymesur o blant anabl yn cael eu magu mewn tlodi – y mae 28 y cant o bobl gyda phlentyn anabl ar yr aelwyd yn byw mewn tlodi, o'i gymharu â 21 y cant o aelwydydd heb blant anabl (Adran Gwaith a Phensiynau, 2005). I dorri'r cylch tlodi ac amddifadedd, mae'n hanfodol fod plant anabl yn gallu cyrchu cyfarpar priodol yn gyflym a bod darparwyr gwasanaethau blynyddoedd cynnar yn sicrhau eu bod yn cael eu cynnwys. Cyhoeddodd yr Uned Cychwyn Cadarn ganllawiau i blant anabl; mae hyn i'w groesawu, ond fe ddylai gynnwys cyfeiriad penodol at gyfarpar symudedd.

Mae'r ddadl dros ymyrraeth gynnar lle bo nam symudedd sylweddol (yn enwedig yn achos plant ifanc) yn gyfryw fel y gall ymyraethau o'r fath hwyluso datblygiad 'normal' a helpu i fod mor debyg ag sydd modd at ddatblygiad plant nad ydynt yn anabl (Warren, 1990). Fodd bynnag, y mae hyn yn dibynnu ar ddarparu'r cyfarpar iawn ar yr adeg iawn.

I blant ifanc iawn, symudedd â phŵer yw'r ymateb angenrheidiol yn aml, ond gall hyn gael ei wrthod am resymau hyfforddiant a diogelwch. Fodd bynnag, y mae tystiolaeth fod symudedd pŵer yn ymyrraeth sydd yn rhoi i blant ifanc ddull o symud yn annibynnol, ac yn eu galluogi i ymchwilio i'w hamgylchedd. Er enghraifft, cafodd merch 20 mis oed gyda chrebachiad math II ar gyhyrau'r cefn gadair olwyn pŵer; ymhen chwe wythnos, yr oedd yn trin y gadair olwyn yn annibynnol, ac ymhen chwe mis, gwelwyd gwelliant yn ei symudedd, a newidiadau datblygiadol (Jones et al, 2003). Gall y rhan fwyaf o blant yrru'n ddigon medrus, hyd yn oed y rhai gydag anabledd dysgu difrifol neu ddiffyg echddygol. Ni ddylid synied am gadeiriau olwyn pŵer fel dewis olaf ond fel dull o alluogi plant â diffyg echddygol difrifol i symud eu hunain o gwmpas yn effeithlon (Bottos et al, 2001).

Dylai plant anabl na allant symud yn ddigon da i gymryd rhan yng ngweithgareddau arferol plentyndod wrth ddefnyddio cadair olwyn wthio gael eu hystyried ar gyfer symudedd pŵer. Mae symudedd pŵer i'r plant hyn, yn enwedig plant ifanc, yn hanfodol i'w datblygiad gwybyddol (Paulsson K et al, 1987).

[5] Gan ddefnyddio'r mesur safonol o 60 y cant o incwm canolrif wedi costau cartrefu.

Dengys yr astudiaeth achos a ganlyn y gwahaniaeth y gall y gadair olwyn iawn wneud i blant ifanc:

Bachgen 4 oed yw Sam gyda pharlys yr ymennydd. Mae hyn yn golygu na all gerdded a'i fod yn ddibynnol ar gadair olwyn neu gael ei gario. Cyn cysylltu â Whizz- Kidz, yr oedd gan Sam gadair olwyn y GIG y gallai ddefnyddio dan do yn unig. Yr oedd yn anodd iawn i'w deulu fynd ag ef allan a mwynhau gweithgareddau gyda'i gilydd fel teulu. Ni allai'r GIG dalu am gadair olwyn fyddai'n rhoi iddo'r rhyddid i ddod yn fwy annibynnol.

Asesodd therapydd Whizz-Kidz Sam am gadair olwyn bŵer y gallai ddefnyddio yn unrhyw le o fannau cyfyng yn y tŷ i'r parc y tu allan. Y mae gan ei gadair olwyn newydd hefyd ddyfais godi fel y gall gyrraedd yr îsl i baentio yn yr ysgol, a bod yr un taldra â'i ffrindiau. Cyn gynted ag y derbyniodd Sam ei gadair olwyn newydd, dangosodd mor fywiog a chwilfrydig y mae. Un o'r pethau cyntaf a wnaeth Sam oedd mynd o gwmpas y gegin am y tro cyntaf. Yr oedd wrth ei fodd pan sylweddolodd ei fod yn medru estyn am ei ddiod a'i ffrwythau ar ei ben ei hun.

Y mae plant anabl mewn perygl o ddioddef oedi yn eu datblygiad os na chânt y cyfarpar arbenigol angenrheidiol. Gall oedi ddigwydd wrth ddarparu cyfarpar arbenigol – gan gynnwys cymhorthion cyfathrebu, gwasanaethau cadair olwyn ac offer prosthetig – ac efallai na fydd yn cael ei addasu'n briodol wrth i'r plentyn brifio (Comisiwn Archwilio 2003). Golyga hyn na fydd, efallai, yn ffitio'r plentyn pan fydd yn cyrraedd, ac y mae i hyn oblygiadau datblygiadol i'r plentyn. Y mae hyn yn bwysig o gofio'r cynnydd yn nifer y plant sy'n ddibynnol ar dechnoleg.

Mewn arolwg o 3,000 o deuluoedd gyda phlentyn ag anabledd difrifol, crybwyllodd 77 y cant angen nas atebwyd am gyfarpar cymunedol (Beresford et al, 2003).

Mae adroddiad Uned Strategaeth y Prif Weinidog, *Gwella Cyfleoedd Bywyd Pobl Anabl* (2005), yn gwneud nifer o argymhellion yr ydym ni yn eu cefnogi:

- Dylid darparu cyfarpar i blant anabl yn brydlon, ar sail asesiad aml-asiantaethol sy'n digwydd mor fuan ag sydd modd wedi nodi anghenion y plentyn
- Dylai awdurdodau lleol, YGS ac, o'u cychwyn, Ymddiriedolaethau Plant, weithio gyda'i gilydd a chyda'u partneriaid i gomisiynu gwasanaethau yn strategol
- Dylai plant anabl a'u teuluoedd allu cyrchu'r cyfarpar y maent eu hangen yn amserol, pryd a lle y mae arnynt ei angen. Mae hyn yn galw am brosesau asesu a chyllido cyffredin ar draws gwasanaethau iechyd, addysg a chymdeithasol, a bydd yn golygu bod yn rhaid cyfoesi'r cyfarpar a'i gynnal heb oedi.

## *Negeseuon ein canfyddiadau*

Y mae plant yn aros am gyfnodau maith i gael eu cyfeirio i ddechrau, am asesiadau ar gyfer cyfarpar a chael cadair olwyn neu un newydd. Hyd yn oed pan fydd yn cyrraedd, gall fod wedi ei ffitio yn anghywir. Y mae angen casglu gwell data yn genedlaethol ar gyfeirio a sut y mae cyfeiriadau yn cael eu hasesu, a faint o blant sydd naill ai yn dioddef oedi diangen neu erioed yn cael eu cyfeirio i'w hasesu am nad ydynt yn cwrdd â meini prawf cymhwyster eu gwasanaeth lleol.

# Y gadair olwyn iawn i'r plentyn iawn

> "Mwy o ddewis o fathau o gadair, os gwelwch yn dda. Rhowch y cadeiriau iawn i gyfateb i anghenion plant … ail-gynlluniwch hwy fel eu bod yn haws o lawer eu codi a'u llwytho, eu bod yn ffitio'r plentyn yn well ac yn hawdd i'w haddasu. Dylai seddi fod wedi eu padio yn wastad! Mae'r gwregys yn cordeddu yn y breichiau a'r olwynion, ac yn cael eu dal dan y sedd gan ei bod wedi ei chynllunio yn wael iawn … o, a da chi, gwnewch hynny'n sydyn, cyn i diwmor fy merch hawlio'i bywyd. Tydw i ddim mor anhunanol fel na fuaswn yn gwerthfawrogi ei chael tra bo'r angen yn dal yno. 'Does bosib nad oes modd, yn y dydd heddiw, cynllunio cadeiriau olwyn sydd yn pacio i ffwrdd yn rhwydd, sy'n ysgafn, yn gryf, yn GYFFORDDUS, ergonomaidd gadarn a dymunol i edrych arnynt, ffasiynol hyd yn oed!"
> (Rhiant plentyn, 6 oed, sydd â namau difrifol)

Yn union fel y mae rhieni yn awyddus i ofalu bod esgidiau eu plentyn yn ffitio'n iawn, mae rhieni plant anabl eisiau i'w plant gael cadeiriau olwyn sy'n 'ffitio'n iawn' a chael rhai newydd wrth i'w plant brifio.

Y mae gweithwyr proffesiynol â rhan allweddol mewn gweithio gyda rhieni i ofalu bod plant yn cael eu hasesu am y math iawn o gadair olwyn a bod asesu rheolaidd yn digwydd fel y gall plant symud ymlaen i wahanol fathau o gadeiriau olwyn - er enghraifft, o rai gwthio i rai pŵer. Y mae rhesymau pam nad yw rhieni efallai eisiau i'w plant symud ymlaen i gadair olwyn bŵer ac y maent yn ei gweld fel 'dewis olaf', ond y mae ychydig o dystiolaeth, fod pryderon cyntaf y rhieni yn diflannu fel arfer pan welant effeithiau cadarnhaol symudedd pŵer. Y mae hyn yn cynnwys mwy o reolaeth bersonol, annibyniaeth a chyfleoedd i gymryd rhan mewn gweithgareddau cymdeithasol (Wiart et al, 2004).

Fodd bynnag, y mae rhesymau cymhleth pam nad yw gweithwyr clinigol yn argymell cadair olwyn bŵer i blant, neu pam nad ydynt yn ei derbyn hyd yn oed os argymhellir un. Ymhlith y rhain y mae cyfyngiadau cyllid, meini prawf cymhwyster haearnaidd a rhesymau yn ymwneud â risg a'r angen am oruchwyliaeth.
Ymhellach, bydd gweithwyr proffesiynol yn aml yn darparu cadair olwyn yn unig wedi i bob ymgais i gael plentyn i gerdded fod yn aflwyddiannus (Guereete et al 2005; Nicolson et al 2002; Staincliff S. 2003).

Y tri phrif reswm pam nad yw plentyn yn derbyn cadair olwyn bŵer wedi i un gael ei hargymell yw cyllido, diffyg cefnogaeth y teulu a phroblemau cludiant (Guerette et al, 2005).

## *Problemau i blant*

Dengys arolwg Barnardo's a data Whizz-Kidz fod y meini prawf a ddefnyddir gan wasanaethau cadair olwyn y GIG yn cael effaith ar blant mewn nifer o ffyrdd:

- Bydd plant a phobl ifanc yn aml yn derbyn cadeiriau olwyn anaddas neu trwy brosesau asesu sydd yn aml yn methu ag edrych ar botensial mwyaf y plentyn yn y dyfodol, ei anghenion cymdeithasol, addysgol a datblygiadol yn ogystal ag asesu ar gyfer cysur corfforol megis osgo ac eistedd
- Yn aml, nid yw plant a phobl ifanc yn cael yr ategolion hanfodol neu maent yn cael rhai anaddas.

## *Addasrwydd cadeiriau olwyn*

Dangosodd yr ymatebion i arolwg Barnardo's fod pedwar o blant yn defnyddio cadeiriau olwyn pŵer, pump yn defnyddio cadeiriau olwyn gwthio annibynnol, ac yr oedd gan yr ugain oedd weddill gadeiriau olwyn gwthio gyda chymorth.

Cafwyd 24 ymateb i'r cwestiwn, 'Os ydych wedi derbyn cadair olwyn, a yw yn ateb eich anghenion?' Atebodd naw ei bod, gyda rhai sylwadau cadarnhaol:

> "Falch iawn gyda'r gynhaliaeth, arddull a'r dylunio"
> (Rhiant plentyn, 2 flwydd a 9 mis oed, gafodd ei chyfeirio i ddechrau ac a fu'n disgwyl am fisoedd lawer)

> "Ydy, mae fy nghadair olwyn yn ateb f'anghenion ac yn caniatáu i mi fynd i lefydd … mae wedi gwneud yn haws i mi symud o gwmpas, a 'ngwneud yn annibynnol"
> (Person ifanc â spina bifida)

> "Ydy, mae wedi ei haddasu ar gyfer f'anghenion. Bellach, mae gen i harnais brest, platiau traed ac olwynion gwell sydd ddim yn cael pyncjar"
> (Merch, 11 oed sydd ag anawsterau dysgu)

Fodd bynnag, dywedodd 15 o rieni, neu blant, nad oedd y gadair olwyn yn ateb anghenion eu plentyn:

> "Nid yw'r Kid Active hon yn caniatáu iddi gysgu yn y gadair olwyn heb anhawster"
> (Rhiant plentyn, 7 oed, sydd â scoliosis yr asgwrn cefn ac anawsterau dysgu dwys)

> "Na. Mae'n anghyfforddus. Mae'r handlenni yn rhy isel i'w gwthio heb blygu. Maent hefyd yn rhy agos at ei gilydd. Mae'r breciau yn 'popian' i ffwrdd bob munud!"
> (Rhiant sengl dau blentyn, bachgen 11 oed, a merch ag anableddau difrifol, 6 oed)

> "Mae'n dda i'n merch, ond yn drwm iawn i'w chodi i mewn ac allan o'r car"
> (Rhiant plentyn 5 oed, sydd â namau lluosog)

> "Mae arnom angen cadair olwyn go-iawn … un y medra'i ei gwthio heb frifo fy nghefn"
> (Rhiant plentyn 22 mis oed, sydd â spina bifida)

> "RYDW I'N EI CHASÁU - NA - mae'n rhy fawr i ffitio i gist helaeth fy nghar yn iawn. Byddaf byth a hefyd yn dal rhyw ddarn o 'nghorff - bysedd, coesau, arni wrth ei llwytho. Mae'n anodd iawn ei chodi, am fod y siâp mor anhylaw. Byddaf yn baeddu oherwydd y mwd ar yr olwynion"
> (Rhiant merch 6 oed, sydd â namau lluosog difrifol)

Dengys yr astudiaeth achos a ganlyn gan Whizz-Kidz y gwahaniaeth y gall y gadair olwyn iawn wneud:

> mae Suzanne yn byw gyda'i rhieni a'r brawd a'i chwaer hŷn, ac er nad yw ond 15 oed, y mae ganddi barlys ymledol, cyflwr dirywiol sy'n golygu na all gerdded. Rhoes Whizz-Kidz gadair wthio sefyll iddi sydd yn ei chaniatáu i'w chodi ei hun i'r un uchder â'i theulu a'i chyd-ddisgyblion, fel ei bod yn haws iddi ymuno mewn gwersi ac mewn sgwrs. Cyn hyn, rhaid oedd iddi ddibynnu ar gadair olwyn wthio ysgafn y GIG a ffrâm sefyll oedd mor fawr a thrwsgl fel ei bod yn anodd iawn iddi ei ddefnyddio ac a oedd bron yn llenwi ystafell fyw y teulu.

## *Ategolion hanfodol*

Hyd yn oed pan geir cadair olwyn y GIG, gall rhieni orfod aros am yr ategolion hanfodol megis platiau traed, hambyrddau, goleuadau a chyfeirwyr. Mae llawer o rieni yn y pen draw yn gorfod talu am y rhain eu hunain, a gallant fod yn ddrud iawn. Cost hambwrdd, er enghraifft, yw £110 ar gyfartaledd, mae set gyflawn o oleuadau a chyfeirwyr yn costio tua £170 a dyfais lledorwedd drydanol yn costio £220.

> "Dal i ddisgwyl am i'r platiau traed a breciau newydd gael eu ffitio, a phecyn pŵer i helpu'r gofalwyr i 'ngwthio"
> (plentyn, 11 oed, sydd ag epilepsi difrifol)

> "Pam fod yr ategolion sydd eu hangen mor ddrud a pham fod yn rhaid eu prynu? Pam nad oes modd eu darparu?"
> (Rhiant bachgen 6 oed sydd â pharlys yr ymennydd)

## *Yr effaith ar deuluoedd*

Mae talu am ategolion ychwanegol yn cael effaith ar deuluoedd gyda phlant anabl, sydd â llawer eisoes yn dioddef lefelau uwch o dlodi:

- O'r holl deuluoedd yn y DU sy'n gofalu am blant anabl, y mae 55 y cant naill ai yn neu wedi bod yn byw mewn tlodi (Gordon et al 2000)
- Dangosodd ymchwil ei bod yn costio ar gyfartaledd deirgwaith gymaint i fagu plentyn anabl ag i fagu plentyn nad yw'n anabl (Dobson a Middleton, 1998; Gordon et al, 2000)
- Gorfodir rhieni yn aml i fynd i ddyled i ateb anghenion sylfaenol eu plentyn anabl, tra bod brodyr a chwiorydd nad ydynt yn anabl yn gorfod gwneud heb bethau (Dobson a Middleton 1998).

Addawodd y Llywodraeth roi terfyn ar dlodi plant erbyn 2020 a'i haneru erbyn 2010.Dengys y ffigyrau diweddaraf fod tlodi plant yn 3.4 miliwn – gostyngiad o 700,000 ers 1996/7.
Fodd bynnag, dengys yr ymchwil ddiweddaraf, ar gyfer unrhyw lefel benodol o gymhwyster, fod pobl anabl lawer yn fwy tebygol o fod heb waith neu fod mewn gwaith sy'n talu'n isel. O blith oedolion anabl o oedran gweithio, y mae 30 y cant yn byw mewn tlodi incwm, mwy na'r 27 y cant ddegawd yn ôl, a dwbl y gyfradd ar gyfer oedolion o oedran gweithio nad ydynt yn anabl (Palmer et al, 2005).

## *Negeseuon o'n canfyddiadau*

Y mae mwyafrif y plant a ymatebodd i'n harolwg yn defnyddio cadeiriau olwyn sy'n anaddas i'w hanghenion ac anghenion eu teuluoedd.

Y mae teuluoedd yn gorfod talu am ategolion hanfodol neu fod hebddynt, er y bydd dros eu hanner yn dioddef tlodi rywbryd neu'i gilydd. Os yw'r Llywodraeth am gwrdd â'r targed o roi terfyn ar dlodi i bob plentyn, yna ni ddylai'r un teulu orfod talu am unrhyw gyfarpar nac ategolion i gadair olwyn.

## *Safbwynt a dewisiadau plant a theuluoedd*

Dangosodd canfyddiadau o arolwg Barnardo's a data Whizz-Kidz, pan fyddai plant a phobl ifanc yn cael eu hasesu ar gyfer cadeiriau olwyn gan wasanaethau'r GIG, mai anaml y byddai anghenion dull o fyw neu ddewisiadau'r teulu yn cael eu hystyried, ac ni fyddai anghenion addysgol neu gymdeithasol y plant neu'r bobl ifanc yn cael eu hystyried. Er enghraifft:

> "Ni wnaed darpariaeth ar gyfer brodyr a chwiorydd iau wrth ddarparu cadeiriau olwyn. Bydd yn rhaid i ni glipio cadair olwyn G wrth goets y babi"
> (Rhieni merch 2 flwydd a 9 mis oed a mab 5 mis oed)

> "Fe allai wneud gyda hambwrdd llai. Fe wnaethom archebu gorffwysydd pen wedi'i addasu hefyd, ac y mae'n cael ei ddefnyddio yn awr. Fe gymerodd hwnnw hefyd 3 i 4 mis i gyrraedd … ac yr ydw i'n gyndyn o archebu gorffwysydd pen newydd, er enghraifft, am y gwn y bydd mor hir yn cyrraedd"
> (Rhiant bachgen 14 oed, sydd â pharlys yr ymennydd a namau difrifol)

> "Mewn llawer ffordd, mae wedi gwneud bywyd yn fwy anodd. Mae ei chadw yn y t? yn gymaint o broblem fel mai yng nghist y car mae'n cael ei chadw, mwy o godi a thrin, gan ei bod yn cael ei defnyddio bob dydd i fynd i'r ysgol ac ati"
> (Rhiant gyda phedwar o blant, gan gynnwys gefeilliaid 12 oed)

Mae'r astudiaeth achos a ganlyn yn amlygu pwysigrwydd ystyried dull o fyw ac anghenion y teulu:

Bachgen bywiog 7 mlwydd oed yw Peter sydd â pharlys yr ymennydd, sydd yn effeithio ar ei allu i gerdded; dim ond ychydig bellter y gall gerdded gyda help, ac y mae'n blino'n hawdd. Cyn cysylltu â Whizz-Kidz, cadair olwyn wthio oedd ganddo, wedi ei chyflenwi gan y GIG, oedd yn golygu, pryd bynnag oedd eisiau mynd allan, ei fod yn gorfod dibynnu ar bobl eraill i'w wthio. Ni allai ymuno â'i ffrindiau ar gyfer chwaraeon neu amser chwarae yn ei ysgol brif-ffrwd. Y mae brawd Peter, ei efaill, hefyd yn anabl, oedd yn ei gwneud yn anodd iawn i'w fam â'r ddau fachgen allan gyda'i gilydd gan na allai wthio dwy gadair olwyn ar unwaith.

Ni allai'r GIG ddarparu'r gadair olwyn bŵer yr oedd ar Peter angen, yn bennaf oherwydd cyfyngiadau ariannol. Mae'r gadair olwyn bŵer a ddarperir gan Whizz-Kidz yn addas i'w defnyddio dan do a thu allan. Y mae ganddi ffon reoli fel y gall Peter ei gyrru ar ei ben ei hun, ac y mae gan ei fam ei ffon reoli hithau fel y gall roi cefnogaeth ychwanegol os oes angen. I Peter, mae'r gwahaniaeth yn enfawr gan ei fod yn fwy annibynnol o lawer, ac y gall chwarae gyda'i ffrindiau. Yn yr ysgol, gall ymuno amser chwarae, cymryd rhan mewn addysg gorfforol a gwneud pethau cyffredin, bob-dydd fel hongian ei got.

## *Negeseuon o'n canfyddiadau*

Mae llawer o blant yn derbyn cadeiriau olwyn sy'n anaddas ar gyfer eu hanghenion ac nad ydynt chwaith yn ateb anghenion dull byw eu teuluoedd. Mae i hyn oblygiadau arbennig i iechyd rhieni sydd yn codi cadeiriau olwyn trwm, ac sy'n atal plant anabl a'u teuluoedd rhag cael eu cynnwys yn gymdeithasol mewn gweithgareddau hamdden arferol.

# Cynnal, hyfforddiant ac yswiriant

Argymhelliad y *Safonau Gofal Iechyd* ar gyfer Gwasanaethau Cadair Olwyn a ddarperir gan y GIG yw, fel arfer da, mai tri diwrnod gwaith yw isafswm yr amser aros ar gyfer gwaith trwsio nad yw'n waith brys, a 24 awr ar gyfer trwsio/ymateb mewn argyfwng. Fodd bynnag, dangosodd ein canfyddiadau wahaniaethau rhanbarthol yn y ffordd mae gwasanaethau cadair olwyn yn cynnig cynnal yn ogystal â hyfforddiant ac yswiriant. Unwaith eto, mae hyn yn arwain at anghyfartaleddau daearyddol. Er enghraifft, dangosodd yr ymateb i holiaduron Barnardo's fod wyth o rieni, oedd oll yn defnyddio'r un gwasanaeth cadair olwyn gan y GIG, yn fodlon gyda'r gwaith cynnal a'r hyfforddiant a ddarparwyd. Fodd bynnag, yr oedd ymatebion gan rieni mewn rhanbarthau eraill yn dangos amrywiadau daearyddol:

> "Buasai hyfforddiant yn dda petai rhywun yn dangos i ni y ffyrdd gorau o drosglwyddo ein plant i mewn ac allan o gadeiriau mewn dull diogel"
> (Rhiant plentyn 11 oed, sydd ag anableddau dysgu)

> "Dim hyfforddiant – dim ond dangos i ni sut i'w chau a'i hagor"
> (Rhiant bachgen 11 oed, sydd ag anableddau dysgu)

> "NA! Y maen nhw'n cynnal y gadair olwyn ond mae'n rhaid i ni aros wythnosau am apwyntiad ac os colla'i hwnnw, mae'n cymryd wythnosau eto. Mae'n rhaid i mi fynd â'r gadair olwyn atynt hwy. Rydw i'n meddwl y dylent ddod i 'nghartref i wneud gwaith cynnal ar y gadair ac ymweld ymhen 7 diwrnod …dylai'r cwmni drefnu i roi gwasanaeth i'r gadair yn rheolaidd a chymryd cyfrifoldeb am hynny, nid gadael y peth i'r rhieni (sydd fel arfer â 100edd o apwyntiadau i'w trefnu!). Dylid gwneud gwaith cynnal yn gyflym yn y cartref neu'r ysgol. DDYLAI CADEIRIAU OLWYN FYTH GAEL EU CYMRYD YMAITH I'W TRWSIO AC ATI, ONI FYDD UN ARALL O'R MAINT IAWN AR GAEL YN SYTH" (Rhiant plentyn 6 oed, sydd â namau lluosog)

> "Mae gwaith cynnal yn digwydd trwy gwmni sydd â chontract i wneud gwaith trwsio i'r gwasanaeth cadair olwyn. Mae'r contract mor wael ac anhyblyg, fel nad ydynt ar gael yn yr ardal ond am un diwrnod yr wythnos (dydd Iau). Pan fydd angen trwsio'r gadair olwyn, gall llawer wythnos fynd heibio o'r ymweliad cyntaf at y trwsio terfynol, o ddydd Iau i ddydd Iau … i ddydd Iau …"
> (Rhiant plentyn anabl 12 oed)

Mae'n hanfodol cynnal cadair olwyn yn iawn er mwyn manteisio i'r eithaf arni. Mae ar rieni a gofalwyr angen hyfforddiant proffesiynol er mwyn ennill y medr i wneud hyn.
(Sawatzky B.J a Denison I, 2006)

Ar hyn o bryd, os darperir CPTDDA neu gadair olwyn bŵer ar gyfer y tu allan trwy'r GIG neu trwy Whizz-Kidz, rhaid i'r teulu drefnu eu hyswiriant eu hunain. Mae pecyn cynnal ac yswiriant pum mlynedd i deulu unigol yn costio ar gyfartaledd rhwng £1,500 a £3,000, yn dibynnu ar y math o gadair. Gobaith Whizz-Kidz yw darparu pecyn cynnal ac yswiriant yn y dyfodol i gefnogi teuluoedd sydd yn ei chael yn anodd cwrdd â'r costau hyn, yn ddelfrydol ar y cyd â'u gwasanaeth cadair olwyn lleol.

Y mae Whizz-Kidz yn cynnal hyfforddiant sgiliau cadair olwyn i blant gan ddefnyddio cadeiriau olwyn pŵer a gwthio annibynnol.

### *Negeseuon o'n canfyddiadau*

Mae bywydau rhieni plant anabl yn straenllyd a phrysur, gyda llawer o apwyntiadau ysbyty ac eraill. Mae aros am waith trwsio yn tarfu ar fywydau plant, ac yn eu hatal rhag dilyn eu gweithgareddau beunyddiol megis mynd i'r ysgol. Rhaid i waith cynnal, hyfforddiant ac yswiriant o ansawdd uchel fod yn rhan o'r pecyn gwasanaeth i blant a theuluoedd.

## Lleisiau a dewisiadau plant

Gofynnwyd i rieni a phlant a atebodd holiadur Barnardo's 'A ydych yn hoffi eich cadair olwyn?' Yr oedd llawer o atebion cadarnhaol:

### *Rhieni*

> "Ydw. Mae modd ei haddasu ac y mae'n hawdd ei gwthio" (Rhiant efaill 6 oed)

> "Heb gadair olwyn A fyddai dim modd i ni fynd i unman gan nad yw A yn cerdded o gwbl"
> (Rhiant merch 12 oed sydd ag epilepsi a namau difrifol)

> "A dweud y gwir, fe hoffai'r teulu ddweud ddiolch yn fawr i'r Llywodraeth a'r gwasanaeth lleol"
> (Rhieni dau fachgen, 19 ac 13 oed, sydd â namau lluosog dwys)

### *Plant a phobl ifanc*

Nid oedd y ferch 11 oed hon yn hollol hapus gyda'i chadair olwyn ac fe gariai weld 'mwy o gadeiriau olwyn o ansawdd dda', ond ychwanegodd:

> "Am fy mod yn blino mor fuan, mae fy nghadair olwyn wedi caniatáu i mi orffwys, a hefyd wedi 'ngalluogi i fynd allan gyda'r teulu."

Ychwanegodd bachgen arall:

> "Gallaf fynd allan unrhyw bryd gan eistedd yn iawn, fel fy mod yn gyfforddus"
> (Bachgen 5 oed sydd â pharlys yr ymennydd)

Yn union fel y mae'n well gan blant a phobl ifanc ddewis eu dillad eu hunain, mae gan blant anabl hawl hefyd i ddewis eu cadeiriau olwyn. Nid yw asesiadau ar sail anghenion clinigol yn unig yn ystyried eu dewisiadau a'u dulliau o fyw personol:

> "Mae ar bobl yn eu harddegau angen cadair sy'n edrych yn dda ac un sy'n ysgafn fel y gall rhieni ei gwthio a'i chodi i'r car"
> (Merch 14 oed sydd ag ADHD ac epilepsi)

> "Ond yn y gorffennol rwyf wedi teimlo fy mod yn wastad wedi derbyn cadair hen-ffasiwn, nid un sy'n apelio at blant"
> (Person ifanc 16 oed sydd â pharlys yr ymennydd)

Rhai esiamplau o effaith gadarnhaol ystyried dewisiadau a dull o fyw plant a phobl ifanc:

> "Mae 'nghadair olwyn bŵer ardderchog gan Whizz-Kidz wedi gwneud popeth roeddwn yn obeithio y byddai. Mae wedi fy helpu gyda'r côr; yn awr, gallaf fod ar yr un uchder â phawb arall pan fyddaf yn canu. Mae wedi helpu f'annibyniaeth hefyd. Rwyf wrth fy modd yn gallu gogwyddo'r sedd yn ôl i orffwys fy nghefn gyda'r nos. Mae fy ffrindiau yn hoffi'r gadair olwyn hefyd gan y gallaf siarad â hwy yn nawr ac edrych yn eu llygaid yn lle eu bod yn gorfod edrych i lawr arnaf, a gallaf symud ar yr un uchder â hwy."
> (Person ifanc 16 oed, sydd ag atroffi cyhyrau'r cefn)

> "Mae fy nghadair olwyn bŵer newydd yn golygu y gallaf fynd i'r iard chwarae a pheidio mynd mor flinedig – mae'n wych! Gallaf fynd i siopa heb i rywun orfod fy ngwthio trwy'r amser, a gallaf chwarae pêl-fasged yn fy Nghlwb Sadwrn ar fy mhen fy hun"
> (Person ifanc, 10 oed, sydd â pharlys yr ymennydd)

Bachgen 16 oed yw Damian sydd wedi ffoli ar bêl-fasged. Mae'n chwarae mewn gemau ddwywaith yr wythnos, yn mynd i sesiynau hyfforddi, ac eisoes yn aelod o garfan dan 23 Prydain Fawr. Y mae gan Damian anhwylder cyhyrysgerbydol sydd yn golygu bod asgwrn y forddwyd yn dirywio a bod cerdded yn boenus iawn iddo. Yr oedd arno angen cadair uchel ei pherfformiad o ansawdd dda fyddai'n caniatáu iddo wneud y gorau o'i sgiliau a chystadlu ar lefel uwch, ryngwladol o bosibl. Ar y cyd, talodd Whizz-Kidz a'r Lord's Taverners am gadair olwyn chwaraeon o'r radd flaenaf, wedi ei theilwrio i'w faint ef, sydd yn ateb rheoliadau'r gamp a'i ddewisiadau personol ei hun.

*Negeseuon o'n canfyddiadau*

Rhaid i wasanaethau cadair olwyn ystyried dewisiadau plant a rhoi dewis go-iawn iddynt – a chadeiriau olwyn sydd yn wir ffasiynol!

## Cael canlyniadau cadarnhaol i blant anabl: pwysigrwydd gwrando ar blant

Mae gwrando ar blant a theuluoedd yn hollbwysig os am gael canlyniadau cadarnhaol i blant anabl. Mae hyn yn cynnwys hybu cyfranogi ac annibyniaeth:

> "Yn fy marn i, cynharaf yn y byd mae plentyn yn cael cadair, mwyaf annibynnol y bydd, oherwydd po hwyaf y byddan nhw'n disgwyl, mwyaf yr ânt i ddibynnu ar y rhieni ac y mae'n galetach o lawer eu cael i fod yn annibynnol"
> (Rhiant merch 22 mis oed sydd â spina bifida)

> "Byddai'n gwneud gwahaniaeth sylweddol i annibyniaeth ein plentyn a'i gynnwys gyda'i efaill, e.e., pan fyddwn yn mynd ar dripiau – ar hyn o bryd, mae'n dibynnu ar oedolyn i'w wthio."
> (Rhiant efeilliaid 9 oed, un â pharlys yr ymennydd, ac a fu'n disgwyl bum mis am apwyntiad i gael ei asesu am gadair olwyn bŵer)

Yn amlwg, mae rhieni eisiau annibyniaeth i'w plant. Yn hanesyddol, cafodd pobl anabl eu trin fel pobl ddibynnol sydd angen 'gofal' yn hytrach na chael eu cydnabod fel dinasyddion llawn. Mae wedi golygu:

- Bod ymateb i anghenion yn aml wedi creu dibyniaeth, yn hytrach na hybu annibyniaeth ac ymestyn cyfle
- Y bu disgwyl i bobl anabl ffitio i'r gwasanaethau yn hytrach na chael y gwasanaethau wedi eu personoleiddio i ymateb i anghenion unigol
- Mae disgwyl i blant a phobl ifanc anabl ffitio i wasanaethau cadair olwyn a anelwyd yn bennaf tuag at oedolion.

Mater yw byw yn annibynnol o roi dewis, gallu a rhyddid i bobl anabl (Uned Strategaeth y Prif Weinidog, 2005).

Y mae tystiolaeth fod darparu cyfarpar ac addasiadau priodol yn cynyddu annibyniaeth, yn lleihau'r angen am gymorth personol ac yn atal neu yn lleihau problemau iechyd (Uned Strategaeth y Prif Weinidog, 2005).

Mae angen mwy o ymchwil i'r hyn sy'n hybu annibyniaeth a sut i'w ddiffinio. Y mae dadleuon dros ddeilliannau penodol i gyd-destunau, wedi eu diffinio gan y person ifanc a'i d/theulu, sydd yn canolbwyntio ar ddeilliannau ystyrlon megis lefelau cymryd rhan ym mywyd y cartref, yr ysgol a'r gymdeithas (Palisano et al 2003).

Mae Law et al (2005) hefyd yn pwysleisio pwysigrwydd cyfranogi. Mewn astudiaeth o'r ffactorau sydd yn dylanwadu ar gyfranogiad plant a ieuenctid sydd â nam corfforol mewn gweithgareddau hamdden ac adloniant, y mae'r awduron yn cysylltu cyfranogi ag iechyd, lles a datblygiad y plant. Dadleuant hefyd fod pob plentyn yn wahanol yn y modd maent yn cymryd rhan mewn gweithgareddau beunyddiol, ac mai'r ffordd orau o ddeall cyfranogi yw ymchwilio i safbwyntiau plant a theuluoedd yn eu hamgylcheddau unigryw.

*Negeseuon o'n canfyddiadau*

Cyfranogiad plant yw'r allwedd i gyrraedd y deilliannau cadarnhaol i blant a ddatgenir yng Nghonfensiwn y CU ar Hawliau'r Plentyn (Erthygl 12).

# Casgliad

Dengys yr adroddiad hwn fod y ddarpariaeth gwasanaeth cadair olwyn ledled y DU yn dal i fethu llawer o blant a phobl ifanc anabl:

- Y mae plant anabl yn disgwyl am gyfnodau annerbyniol o faith am asesiadau ac i dderbyn cadeiriau olwyn neu rai newydd - y mae hyn yn cael effaith ar eu datblygiad ac ar brofiadau eu plentyndod
- Y mae cadeiriau olwyn yn aml yn anaddas a heb yr ategolion hanfodol
- Yn aml, nid atebir anghenion cymdeithasol ac eraill y plant a'r teuluoedd, yn enwedig o ran hyfforddiant, gwaith cynnal ac yswiriant
- Anaml y gwrandewir ar leisiau na dewisiadau'r plant
- Y mae methiant i asesu potensial
- Y mae anghyfartaleddau daearyddol wrth ddarparu gwasanaethau cadair olwyn.

Amlygwyd y diffygion mor bell yn ôl ag Adroddiad McColl ym 1986, ac eto, er bod cynnydd yn nifer y plant anabl, technoleg cadeiriau olwyn wedi symud ymlaen, cynnydd wedi ei wneud tuag at gynhwysedd a bod agenda hawliau yn datblygu, ni chafwyd unrhyw ail-lunio na buddsoddi mewn adnoddau ar raddfa fawr mewn gwasanaethau cadair olwyn.

Bydd plant anabl ag anghenion symudedd yn dal i gloffi y tu ôl i'w cyfoedion nad ydynt yn anabl oni eir i'r afael â hyn rhag blaen. Byddant yn parhau i golli cyfleoedd a phrofiadau i ddatblygu yn ystod plentyndod, ac i lawer, bydd hyn yn arwain at ddibyniaeth ar eraill pan fyddant yn oedolion.

Fel y dengys yr adroddiad hwn, fe geir esiamplau o arfer da lle mae'r gwasanaethau yn esgor ar y deilliannau dymunol o safbwynt y plentyn a'r teulu, a rhaid trosi'r safonau da hyn ar draws y gwasanaethau cadair olwyn.

Y mae'r polisi a'r fframwaith deddfwriaethol i arwain a chefnogi moderneiddio'r ddarpariaeth gwasanaeth cadair olwyn i blant anabl ar gael. Yr hyn sydd ei angen yn awr yw newid mewn diwylliant ac ymrwymiad gan Lywodraeth San Steffan, y llywodraethau datganoledig ledled y DU, comisiynwyr gwasanaethau a darparwyr gwasanaethau i ofalu bod plant anabl yn cael y gwasanaethau cadair olwyn hanfodol y mae arnynt eu hangen er mwyn eu galluogi i gymryd rhan lawnach yn y profiadau beunyddiol a allai gyfoethogi eu bywydau.

# Y ffordd ymlaen

Mae Barnardo's a Whizz-Kidz yn gwneud yr argymhellion a ganlyn:

## Ledled y DU

Anogir Llywodraeth y DU a'r Llywodraethau datganoledig yn gryf i weithredu'r argymhellion canlynol o Uned Strategaeth y Prif Weinidog, *Gwella Cyfleoedd Bywyd Pobl Anabl* (2005):

- Dylid darparu cyfarpar i blant anabl yn brydlon, ar sail asesiad aml-asiantaethol sy'n digwydd mor fuan ag sydd modd wedi nodi anghenion y plentyn
- Dylai awdurdodau lleol, YGS ac, o'u cychwyn, Ymddiriedolaethau Plant, weithio gyda'i gilydd a chyda'u partneriaid i gomisiynu gwasanaethau yn strategol
- Dylai plant anabl a'u teuluoedd allu cyrchu'r cyfarpar y maent eu hangen yn amserol, pryd a lle y mae arnynt ei angen. Mae hyn yn galw am brosesau asesu a chyllido cyffredin ar draws gwasanaethau iechyd, addysg a chymdeithasol, a bydd yn golygu bod yn rhaid cyfoesi'r cyfarpar a'i gynnal heb oedi.

Hefyd, mae Barnardo's a Whizz-Kidz yn galw ar y Llywodraeth a'r Llywodraethau datganoledig yng Ngogledd Iwerddon, yr Alban a Chymru i weithio gyda'u comisiynwyr gwasanaethau iechyd i wneud y canlynol:

- Sicrhau terfyn i'r anghyfartaleddau daearyddol mewn darpariaeth gwasanaethau cadair olwyn i blant anabl trwy gyllid digonol, yn ogystal â mynnu bod pob gwasanaeth cadair olwyn yn gweithio i feini prawf cymhwyster cyffredin
- Sicrhau bod yr adolygiad cynhwysfawr o wariant sydd ar fin digwydd yn edrych ar gyllido yn benodol ar gyfer cadeiriau olwyn i blant. Dylai'r cyllid fod yn ddigon i alluogi pob gwasanaeth cadair olwyn i ddarparu gwasanaeth cynhwysfawr, gan gynnwys ategolion, hyfforddiant, cadeiriau olwyn newydd yn lle hen rai, gwaith cynnal ac yswiriant
- Sefydlu a gorfodi meincnodi darpariaeth cyfarpar, gan gynnwys targedau penodol i fonitro gwasanaethau cadair olwyn i blant gan y Comisiwn Gofal Iechyd. Y mae safonau yn bod, ond ni chawsant eu cadarnhau gan yr Adran Iechyd (AI)[6].
- Sicrhau fod gweithwyr proffesiynol yn derbyn hyfforddiant a chanllawiau ar ddehongli meini prawf cymhwyster a pholisïau eraill yn deg a chyson
- Sicrhau fod meddygon ac eraill yn cynnal asesiadau gan ddefnyddio egwyddorion Fframwaith Asesu Plant mewn Angen, lle rhoddir ystyriaeth i'r potensial i ddatblygu sgiliau, gweithgareddau priodol i oedran, ac anghenion y teulu (Adran Iechyd et al, 2000).

[6] Fforwm Genedlaethol Rheolwyr Cadeiriau Olwyn (2005)

## Lloegr

- Rhaid i gomisiynu a darpariaeth Gwasanaethau Cadair Olwyn i blant ystyried y Papur Gwyn, *Our Health, Our Care, Our Say* (AI 2006).Rhaid dilyn yr argymhellion am Ganolfannau plant yn dod yn brif fecanweithiau cyflwyno o ran iechyd plant, y gofyniad am fwy o gyd-gomisiynu a mwy o ymwneud gan bobl ifanc
- Rhaid i'r Adran Iechyd a'r Adran Addysg a Sgiliau (AAS) gydweithio a rhoi adnoddau newydd i'r ddarpariaeth cadeiriau olwyn ar gyfer plant a phobl ifanc fel y datblygir gwasanaethau sy'n canoli ar blant ac sy'n gofalu am anghenion clinigol, addysgiadol a chymdeithasol - yn unol â Safonau 5 ac 8 y Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol i blant
- The Rhaid i'r AI a'r AAS ofalu y gweithredir y gofynion ar gyfarpar yn Safon 8 y *Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol* (Adran Iechyd a'r Adran Addysg a Sgiliau, 2004).

## Cymru

Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru gadw llygad barcud ar gynnydd gweithredu ei *Safonau Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol* mewn perthynas â phlant anabl a darpariaeth cadeiriau olwyn trwy ei system archwilio a phroses y Teclyn Archwilio Hunanasesu ac adrodd i'r cyhoedd am y canfyddiadau.

## Yr Alban

- Rhaid i Adolygiad presennol y GIG o Wasanaethau Cadair Olwyn gynhyrchu darlun cynhwysfawr o'r ddarpariaeth gwasanaeth yn yr Alban, a rhaid i Weinidogion sicrhau y gweithredir yr argymhellion, gan ddarparu cyllid priodol
- Dylid gwerthuso'r gwasanaeth cadair olwyn yn Lothian, sydd yn ymdrin ag anghenion plant ar wahân dan y gwasanaeth 'Technoleg Galluogi i Blant' yn llawn er mwyn ystyried manteision yr agwedd ar wahân hon i blant, a sut y gellid ail-adrodd hyn mewn mannau eraill.

## Gogledd Iwerddon (GI)

- Dylai'r Adran Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Diogelwch Cyhoeddus (AIGCDC) gyd-gordio adolygiad strategol o wasanaethau cadair olwyn i blant a phobl ifanc yn GI. Rhaid i hyn gynnwys adolygu gwasanaethau cynnal a thrwsio
- Dylai'r AIGCDC sicrhau bod mwy o wybodaeth ar gael i blant a phobl ifanc a'u teuluoedd a gweithwyr proffesiynol ynghylch y math o gadeiriau olwyn sydd ar gael er mwyn gofalu bod y plant yn derbyn y gadair olwyn orau ar gyfer eu hanghenion
- Rhaid i'r Llywodraeth ddarparu cyllid yn benodol ar gyfer plant a phobl ifanc sydd angen cadeiriau olwyn
- Rhaid i'r AIGCDC sicrhau mwy o swyddogion technegol os yw gwasanaethau cadair olwyn yn GI i barhau i gael eu darparu o un safle
- Rhaid i'r AIGCDC sicrhau y datblygir safonau clir ar gyfer darparu gwasanaethau cadair olwyn yn GI.

# Atodiad 1

## Y fframwaith deddfwriaethol a pholisi ar draws y pedair gwlad

## Confensiwn y CU ar Hawliau'r Plentyn

(Mae'r DU yn un o'r llofnodwyr)

### *Erthygl 12*

Dylai Partïon Gwladwriaeth sicrhau i'r plentyn sydd yn alluog i ffurfio ei barn neu ei farn ei hun yr hawl i fynegi y farn honno yn rhydd ym mhob mater sydd yn effeithio ar y plentyn, gan roi i farn y plentyn bwys priodol yn unol ag oedran ac aeddfedrwydd y plentyn.

### *Erthygl 23*

Mae Partion Gwladwriaeth yn cydnabod y dylai plentyn sydd yn feddyliol neu yn gorfforol anabl fwynhau bywyd llawn a gweddus, dan amodau sydd yn sicrhau urddas, yn hybu hunanddibyniaeth ac yn hwyluso cyfranogiad gweithredol y plentyn mewn cymdeithas.

## Ledled y DU

### *Polisi*

*Gwella Cyfle Pobl Anabl mewn Bywyd* (Uned Strategaeth y Prif Weinidog, 2005).Mae'r adroddiad polisi allweddol hwn yn datgan gweledigaeth y Llywodraeth o ran gwella cyfle pobl anabl mewn bywyd ledled y DU.Y mae dau argymhelliad penodol yn ymwneud â gwasanaethau cyfarpar:

- Erbyn 2006, dylai'r Adran Iechyd asesu a all gwasanaethau integredig darparu cyfarpar cymunedol, darpariaeth cymhorthion cyfathrebu a gwasanaethau cadair olwyn gyflwyno argymhelliad y FfGC ar gyfarpar plant, ac os na fedrant, dylent wneud argymhellion ar gyfer gwella
- O 2006 ymlaen, dylai'r Cyd-Adolygiad Ardal ystyried, trwy ymgynghori â'r awdurdodau lleol, defnyddio gwasanaethau cyfarpar fel dangosydd perfformiad allweddol o ofal cymdeithasol lleol, gwasanaethau addysg ac iechyd. Dylai'r dangosydd fod yn gyson ag argymhelliad y FfGC ar gyfarpar. (Mae angen i'r Adran Iechyd a'r Adran Addysg a Sgiliau arwain ar y cyd ar yr argymhelliad hwn.)

## Lloegr

### *Polisi*

Yn Lloegr, mae Safonau 1-5 y *Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol ar gyfer Plant a Gwasanaethau Mamolaeth* yn pwysleisio pwysigrwydd ymyrraeth gynnar *a* gwasanaethau sy'n canoli ar blant. Dywed yr Adran Iechyd a'r Adran Addysg a Sgiliau, 2004:

### Safon 1: Hybu iechyd a lles, adnabod anghenion ac ymyrryd yn gynnar.
Mae iechyd a lles pob plentyn a pherson ifanc yn cael ei hybu a'i gyflwyno trwy raglen weithredu gyfun, gan gynnwys atal ac ymyrraeth gynnar lle bynnag y bo modd, er mwyn sicrhau enillion yn y tymor hir, dan arweiniad y GIG mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol.

### Safon 2: Cefnogi rhieni neu ofalwyr
Galluogir rhieni neu ofalwyr i dderbyn gwybodaeth, gwasanaethau a chefnogaeth sydd yn eu helpu i ofalu am eu plant a rhoi iddynt y sgiliau mae arnynt eu hangen i sicrhau bod eu plant yn cael y cyfle gorau mewn bywyd a'u bod yn iach a diogel.

### Safon 3: Gwasanaethau sy'n canoli ar blant, pobl ifanc a theuluoedd
Plant a phobl ifanc a theuluoedd i dderbyn gwasanaethau o ansawdd uchel sydd wedi eu cyd-gordio o gwmpas anghenion yr unigolyn a'r teulu ac sydd yn ystyried eu barn.

### Safon 4: Tyfu'n oedolion
Gall bob person ifanc gyrchu gwasanaethau addas i'w hoedran sydd yn ymateb i'w hanghenion penodol wrth iddynt dyfu'n oedolion.

### Safon 5: Diogelu a hybu lles plant a phobl ifanc
Pob asiantaeth i weithio i atal plant rhag dioddef niwed a hybu eu lles, rhoi iddynt y gwasanaethau mae arnynt eu hangen i ymdrin â'u hanghenion fel y'u nodwyd a diogelu plant sydd yn cael eu niweidio neu sydd yn debyg o gael eu niweidio.

Hefyd, dywed Safon 8 y FfGC
Y mae byw mewn tai addas a meddu ar y cyfarpar a'r dechnoleg gynorthwyo briodol yn ffactorau allweddol i hybu lles teuluoedd gyda phlant anabl. Y mae'r ffactorau hyn yn cefnogi'r datblygiad gorau ac yn helpu plant i fwynhau gweithgareddau plentyndod megis chwarae, datblygu annibyniaeth a chyfrannu at fywyd y teulu.

Mae hyn yn galw am weithio aml-asiantaeth ac y mae Safon 8 felly yn mynnu bod Awdurdodau Lleol ac Ymddiriedolaethau Gofal Sylfaenol yn gweithio gyda'i gilydd i gomisiynu a chyflwyno gwasanaethau mewn pob lleoliad lle mae plant yn treulio amser, e.e., gartref, yn yr ysgol ac mewn lleoliadau gofal byr.

Y mae gofyniad hefyd i sicrhau bod storfeydd cyfarpar cymunedol wedi eu hintegreiddio ar draws iechyd, gwasanaethau cymdeithasol ac addysg, ac i ddatblygu protocolau aml-asiantaethol sydd yn gosod meincnodau i asesu a darparu cyfarpar plant, gan gynnwys cadeiriau olwyn. Dylid defnyddio cyllidebau wedi eu dwyn at ei gilydd a chamau hyblyg eraill dan Ddeddf Iechyd 1999 i integreiddio a gwella gwasanaethau.

## Cymru

Y mae gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ddyletswydd statudol dan Ddeddf Llywodraeth Cymru i hybu cyfle cyfartal i grwpiau anabl ac eraill y mae cymdeithas yn eu rhoi yn gyson dan anfantais. Y mae hyn yn cael effaith nid yn unig ar y Cynulliad a'r ffordd y mae'n gweithio, ond ar y cyrff cyhoeddus yng Nghymru a noddir gan y Cynulliad ac sy'n atebol iddo. Mabwysiadodd Llywodraeth y Cynulliad *Gonfensiwn y CU ar Hawliau'r Plentyn* fel sail i'w holl waith gyda phlant a phobl ifanc. Bu hyn yn sylfaen i'r *Saith Amcan Craidd ar gyfer Plant a Phobl Ifanc* a'r fframweithiau strategol *Hawl Bore Oes* (0-10 oed) ac *Ymestyn Hawliau* (11-25 oed).

## *Y Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol ar gyfer Plant, Pobl Ifanc a Gwasanaethau Mamolaeth (FfGC) (2005)*

Y mae gan y *FfGC* ddwy safon glir ddylai sicrhau gwell darpariaeth cadeiriau olwyn a gwasanaethau i blant anabl a'u teuluoedd. Dyma hwy:

- Fod pob plentyn anabl a'u teuluoedd yn derbyn gwybodaeth hygyrch am wasanaethau o ansawdd uchel ac wedi eu cydgordio addas i'w hanghenion fel y'u haseswyd, ac y gallant gyrchu'r gwasanaethau hynny yn gyflym ac yn gyfartal
- Darperir i blant anabl wasanaethau priodol o ansawdd uchel, sydd yn amserol ac mewn amgylchedd addas at eu hanghenion, eu hoedran a'u cyfnod datblygu. Cyflwynir gwasanaethau aml-asiantaethol wedi eu cydgordio'n dda i ymdrin â phob math o angen.

Er mwyn cyrraedd y safonau hyn, noda'r *FfGC* y camau craidd allweddol canlynol gan asiantaethau arweiniol penodol. Rhaid cyfarfod â rhai o'r rhain erbyn Mawrth 2006 ac eraill ymhen deng mlynedd:

- Y mae gwasanaethau cyfarpar cymunedol integredig sydd yn cyflenwi cyfarpar i blant a phobl ifanc anabl, wedi eu rheoli gan asiantaeth arweiniol ddynodedig. Mae'r asiantaeth arweiniol yn monitro er mwyn gofalu yr atebir y meini prawf canlynol:
  - Asesiadau ar gyfer cyfarpar i blant anabl yn cael eu gwneud gan y person mwyaf priodol yn y tîm amlddisgyblaethol ymhen pedair wythnos o gyfeirio
  - Cyfarpar yn cael ei gyflenwi ymhen chwe wythnos i'r asesu yn unol â meini prawf cymhwyster y cytunir arnynt ar y cyd ar gyfer cyfarpar hanfodol
  - Mae gan y storfa gyfarpar adnoddau unswydd i blant, a'r rheiny ar wahân i adnoddau i oedolion
  – Adolygir gofynion y plentyn am gyfarpar o leiaf yn flynyddol yn unol ag anghenion yr unigolyn a aseswyd.
- Gall plant anabl ddefnyddio'r cyfarpar y mae arnynt ei angen ym mhob man lle treuliant amser, e.e., yr ysgol, cartref, lleoliadau hamdden ac yn ystod gofal seibiant byr.
- Ceir protocolau a safonau cytunedig ar gyfer gwasanaethau cadair olwyn/seddi arbenigol sydd yn cynnwys:
  – Darparu gwasanaeth cynhwysfawr sydd yn cwrdd ag anghenion penodol plant anabl
  – Darparu gwybodaeth glir i weithwyr proffesiynol, rhieni, gofalwyr, plant a phobl ifanc
  – Un broses gyfeirio sydd yn cwmpasu gwasanaethau a ddarperir trwy'r Gwasanaethau Aelodau Artiffisial a Theclynnau a'r rhai a ddarperir gan beirianneg adsefydlu
  – Asesu ymhen chwe wythnos o dderbyn y cyfeiriad
  – Darparu cadair olwyn neu gyfarpar ymhen wyth wythnos ers asesu
  – Systemau sicrhau ansawdd
  – Gweithdrefnau trwsio a chynnal
  – Adolygu anghenion y plentyn o leiaf unwaith y flwyddyn yn unol ag anghenion yr unigolyn a aseswyd.

- Cynigir hyfforddiant addas a chyson i rieni/gofalwyr ac eraill nad ydynt yn weithwyr proffesiynol i'w helpu i gwrdd ag anghenion eu plentyn anabl. Dylai hyn gynnwys y canlynol o leiaf:
  - Hyfforddiant priodol ar sut i ddefnyddio'r cyfarpar. Cydlynir trefnu'r hyfforddiant a'r gefnogaeth hon gan y sawl sy'n archebu'r cyfarpar trwy gydweithredu â'r cyflenwr
  - Hyfforddiant ar godi a chario.

## *Fframwaith Partneriaeth: Hawl Bore Oes ac Ymestyn Hawliau*

Ffurfiwyd Partneriaethau Fframwaith Plant a Phobl Ifanc yn y 22 awdurdod lleol yng Nghymru ac yn dilyn Deddf Plant (2004) y mae'r rhain yn ofyniad statudol.

Y mae gan Bartneriaethau Fframwaith Lleol a'u his-grwpiau gyfrifoldeb am gyflwyno strategaethau plant a phobl ifanc LICC, 'Hawl Bore Oes' (0–10 oed) ac 'Ymestyn Hawliau' (11–25 oed), sydd yn hybu saith Amcan Craidd i'r holl blant a phobl ifanc yng Nghymru.[7]

Wedi hynny, cyhoeddodd Llywodraeth Cynulliad Cymru (LICC) *Plant a Phobl Ifanc: Gweithredu'r hawliau* (2004) sydd yn datgan ei holl ymrwymiadau ac yn dweud pa newidiadau mae am weld er mwyn gweithredu'r ymrwymiadau hyn. Y mae hyn yn cynnwys yr ymrwymiad bod 'cynifer o blant anabl ag sydd modd yn cael addysg lawn ac yn cymryd rhan mewn gweithgareddau gyda phlant eraill'.

## *Cylchlythyr Rhaglen Plant yn Gyntaf Cymru 05/2005: Canllaw ar gyfer 2005/06*

Mae rhaglen Plant yn Gyntaf yn ganolog i gyflwyno gwell deilliannau i'r plant hynny sydd mewn mwyaf o angen. Nod y rhaglen yw gwella rheolaeth a chyflwyno gwasanaethau cymdeithasol lleol i blant a phobl ifanc sydd mewn angen, a'u teuluoedd, yn benodol, plant anabl, plant sy'n derbyn gofal a'r rhai sy'n gadael gofal. Nod rhaglen Plant yn Gyntaf yw gwneud yn siŵr fod plant sy'n anabl neu sydd â chyflyrau iechyd tymor hir yn gallu byw gyda'u teuluoedd a defnyddio gwasanaethau lleol lle mae modd ateb eu hanghenion.

Un o unarddeg o amcanion y rhaglen yw:

> 'gofalu fod plant gydag anghenion cymdeithasol penodol sy'n deillio o anabledd neu gyflwr iechyd yn byw mewn teuluoedd neu leoliadau addas eraill yn y gymuned lle caiff eu hanghenion a aseswyd eu hateb yn ddigonol, a'u hadolygu.'

Ymysg blaenoriaethau ar gyfer 2004-06 mae: cryfhau gwasanaethau i blant anabl a chefnogi gweithredu'r elfennau hynny o'r FfGC sydd yn ategu rhaglen Plant yn Gyntaf. Rhaid i awdurdodau lleol a'u partneriaid wneud pob ymdrech i sicrhau, wrth weithredu ar y flaenoriaeth hon, yr ymdrinnir â mater cyrchu cadeiriau olwyn a chyfarpar symudedd i blant a phobl ifanc anabl.

[7] Medrwch weld y Nodau Craidd yn http://www.wales.gov.uk/subichildren/content/child-pov-strategy-e.pdf

### *Partneriaethau cryfach i ddeilliannau gwell: canllaw drafft ar gydweithredu lleol dan Ddeddf Plant 2004*

Dan ddarpariaethau'r Ddeddf, mae gofyn i Awdurdodau Lleol, Byrddau Iechyd Lleol ac ymddiriedolaethau'r GIG nodi cyfarwyddwr arweiniol ac aelod arweiniol dros blant a phobl ifanc i fod yn gyfrifol am yrru cynllunio ymlaen dan y Fframwaith. Ar hyn o bryd, mae comisiynu cadeiriau olwyn a chyfarpar symudedd arall yn gyfrifoldeb y Byrddau Iechyd Lleol a Chomisiwn Iechyd Cymru. Mae gan Gomisiwn Iechyd Cymru gyfrifoldeb penodol dros ddarparu cyfarpar i bobl â nam corfforol cymhleth, gan gynnwys darparu cadeiriau olwyn arbenigol megis seddi cymhleth ar gyfer osgo ac offer rheoli cadeiriau olwyn pŵer.

## Yr Alban

### *Deddfwriaeth*

#### Deddf Addysg (Cefnogaeth Ychwanegol i Ddysgu) (Yr Alban) 2004

Daeth y Ddeddf hon i rym ar 14 Tachwedd 2005, ac y mae'n gosod dyletswyddau newydd ar awdurdodau addysg i ddarparu addysg ddigonol ac effeithiol ar gyfer pob plentyn unigol. Mae'r Ddeddf yn cyflwyno'r term 'anghenion cefnogi ychwanegol', sydd yn ehangach o lawer na diffiniadau blaenorol ac yn cyfeirio at unrhyw blentyn sydd angen cefnogaeth ychwanegol ar gyfer dysgu, gan gynnwys oherwydd anabledd. Mae'r Ddeddf yn gosod cyfrifoldeb clir ar Addysg ac Iechyd i gydweithio i gynhyrchu pecyn cefnogaeth fydd yn caniatáu, er enghraifft, i blentyn anabl gyrchu addysg. Byddai hyn yn ymdrin â darparu cyfarpar symudedd.

#### Deddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Yr Alban) 1978

Mae'r dyletswyddau sy'n ffurfio rhan o ddarpariaeth gwasanaethau'r GIG, gan gynnwys cyfarpar ac addasiadau, yn niwlog a chyffredinol eu natur. Nid ydynt yn debyg i'r rhai sy'n gymwys i Awdurdodau Lleol, a all dan rai amgylchiadau eu cael eu hunain dan ddyletswydd absoliwt (waeth am adnoddau) i ddarparu cyfarpar neu addasiadau. O ganlyniad, yn y gorffennol, dadleuodd y GIG yn llwyddiannus mewn nifer o achosion allweddol yn Llys Apêl Lloegr, fod diffyg adnoddau yn esgus cyfreithiol dros beidio â darparu gwasanaethau.

### *Polisi*

Y mae adroddiad Tasglu Gweithgaredd Corfforol Gweithrediad yr Alban, *Let's Make Scotland More Active: a strategy for physical activity* (2003) yn canolbwyntio yn benodol ar blant anabl:

> Argymhellwn fod pob plentyn a pherson ifanc, gan gynnwys plant ag anableddau, yn cymryd rhan mewn o leiaf awr o weithgaredd corfforol y dydd.
>
> Dylai'r gweithgaredd corfforol hwn gynnwys addysg gorfforol, chwarae, campau, ymarfer, dawns, gweithgareddau awyr agored, teithio egnïol a chefnogaeth i fod yn egnïol yn eu tasgau beunyddiol yn y cartref, yr ysgol a'r gymuned.

Mae hyn oll yn amlwg yn amhosibl heb ddarparu cyfarpar symudedd addas.

### *Ymgynghori cyfredol*

*Arolwg y GIG o wasanaethau cadair olwyn a seddi arbennig yn yr Alban* (Papur ymgynghori Tachwedd 2005)

Rhan yw hon o arolwg sy'n digwydd yn awr o wasanaethau cadair olwyn, y cyhoeddir ei adroddiad terfynol yn ystod 2006. Nodwyd gwasanaethau i blant fel 'bwlch mawr' yn y ddarpariaeth bresennol.

## Gogledd Iwerddon

O ran deddfwriaeth, bu Deddf Personau Anabl (GI) 1989 a Gorchymyn Plant (GI) 1995, yn ogystal â Gorchymyn Gwahaniaethau ar Sail Anabledd 2005 yn sail i ddatblygu polisi ar ddarpariaeth cadeiriau olwyn ac yn gyfrwng i sicrhau bod pob Ymddiriedolaeth Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol wedi peri bod cyllid ar gael:

- Nod Deddf Personau Anabl (GI) 1989 oedd rhoi i bobl ag anabledd fwy o reolaeth dros eu bywydau trwy roi iddynt hawliau i gael eu cynrychioli, i ymgynghori â hwy ac i gael asesu eu hanghenion
- Gorchymyn Plant (GI) 1995; dan Erthygl 17, diffinnir plentyn fel un mewn angen os oes nam sylweddol yn debyg o fod ar ei iechyd neu ei ddatblygiad.

Dros gyfnod sylweddol o amser, dangosodd nifer o adroddiadau lefel o anfodlonrwydd ymysg defnyddwyr cadeiriau olwyn yng Ngogledd Iwerddon o ran y maeth o wasanaeth maent yn dderbyn.

# Atodiad 2 Diffiniadau cadeiriau olwyn

## Cadeiriau olwyn gwthio

### *Sylfaenol*

**Cadair olwyn dramwyo**
Cynlluniwyd i'w gwthio gan ofalydd. Bydd ar y defnyddiwr fel arfer angen y gadair olwyn i'w defnyddio dan do a/neu y tu allan.

**Hunan-yrru**
Cynlluniwyd i'w gyrru gan y sawl sydd ynddi.

### *Diben penodol*

**Gwaith trwm**
Mae'r rhain yn cael eu cynhyrchu i ddal pobl sy'n pwyso dros 127kg. Y mae cadeiriau olwyn ar gael gyda therfyn pwysau o 310kg. Gall cadeiriau olwyn gwaith trwm fod naill ai yn rai tramwyo neu'n hunan-yrru.

### Ynni-effeithiol
Cadeiriau olwyn hunan-yrru yw'r rhain a gynlluniwyd ar gyfer defnyddwyr annibynnol a bywiog. Mae'r modelau hyn yn tueddu i fod wedi eu cyflunio i raddau helaeth iawn. Weithiau, maent yn cael eu darparu hefyd er hwylustod i'r gofalydd, gan eu bod yn ysgafnach i'w gwthio a'u codi.

### Cynnal osgo
Bwriedir y modelau hyn ar gyfer defnyddwyr sydd angen rhywbeth i gynnal eu hosgo. Gall y nodweddion gynnwys cyfleuster gogwyddo mewn gofod neu gefn sy'n lledorwedd.

Ymysg mathau eraill mae cadeiriau olwyn sefyll, cadeiriau olwyn wedi'u pweru, a chadeiriau olwyn chwaraeon.

## Cadeiriau olwyn pŵer

### CPTDD
'Cadeiriau pŵer trydan dan do' yw'r rhain. Mae'r rhan fwyaf o gadeiriau a gynhyrchir yn y categori hwn yn cael eu gwneud ar gyfer marchnad y GIG.

### CPTDDA
'Cadeiriau pŵer trydan dan do ac allan' yw'r rhain. Gall y GIG roi'r math yma o gadair olwyn. Dyma (fel arfer yr unig ddarn o gyfarpar a roddir i'r defnyddiwr, felly bydd angen gallu ei symud o gwmpas cartref y defnyddiwr.

Daw cadeiriau olwyn eraill i gategori defnydd tu allan/dan do ac y maent ar gael fel arfer trwy eu prynu'n breifat. Y mae ganddynt foduron gwaith-trwm a batris i roi mwy o filltiredd, a gallant ymdopi ag arwynebeddau mwy anodd. Ymysg nodweddion ychwanegol ar gadeiriau olwyn nad ydynt yn aml ar gael gan y GIG mae cyfleusterau pŵer gogwyddo mewn gofod a lledorwedd, fel bod modd newid safle'r sedd i fod yn fwy cyfforddus, codi'r sedd, a chadeiriau sefyll fel bod modd newid safle a gweld beth sydd yn mynd ymlaen o'ch cwmpas. Mae'r rhain yn gwneud y defnyddiwr yn fwy annibynnol.

### Cadeiriau olwyn a sgwteri pŵer i'w defnyddio y tu allan
Mae'r rhain yn tueddu i fod ag amrediad hwy na'r CPTDDA, felly bydd eu moduron a'u batris yn gryfach, ac yn gallu ymdopi â sawl math o arwynebedd tir.

### Cadeiriau olwyn dan reolaeth cymhorthydd i'w defnyddio y tu allan (gyda phecynnau pŵer)
Cadeiriau pŵer yw'r rhain a reolir gan ofalydd. Mae'r dyfeisiadau rheoli ar handlenni gwthio'r gadair olwyn. Y mae dyfeisiadau deuol ar gael fel bod modd newid rheolaeth y gadair rhwng y defnyddiwr a'r cymhorthydd.

# Cyfeiriadau

Comisiwn Archwilio (2000) *Fully equipped: the provision of equipment to older or disabled people by the GIG and social services in England and Wales.* Comisiwn Archwilio, Llundain.

Comisiwn Archwilio (2002) *Fully equipped 2002: assisting independence.* Comisiwn Archwilio, Llundain.

Comisiwn Archwilio (2003) *Services for disabled children: a review of services for disabled children and their families.* Comisiwn Archwilio, Llundain.

Beresford B, Williams, J a Lawton, D (2003) *Community equipment: use and needs of disabled children and their families. Prifysgol Caerefrog*, Uned Ymchwil Polisi Cymdeithasol, http://www.york.ac.uk/inst/spru/pubs/pdf/equip.pdf (cyrchwyd Ionawr 2006).

Bottos, M, Bolcati, C, Sciuto, L, Ruggier, C a Feliciangeli, A (2001) Powered wheelchairs and independence in young children with tetraplegia. *Developmental Medicine and Child Neurology* 43(11): 769–777.

Butler, C, Okatoma, GA a McKay, TM (1983) Powered mobility for very young disabled children. *Developmental Medicine and Child Neurology* 25:472-474.

Adran Iechyd a'r Adran Addysg a Sgiliau (2005), National Service Framework for Children, Young People and Maternity Services, Complex Disability Exemplar.

Adran Iechyd (2006) Our Health, Our Care, Our Say: a new direction for community services.

Adran Iechyd (2001) *Guide to integrating community equipment services.* Adran Iechyd, Llundain.

Adran Iechyd, Adran Addysg a Chyflogaeth a'r Swyddfa Gartref (2000) *Framework for the assessment of children in need and their families.* Y Llyfrfa, Llundain.

Adran Iechyd a'r Adran Addysg a Sgiliau (2004) *National service framework for children, young people and maternity: disabled children and young people and those with complex health needs.* http://www.dh.gov.uk/assetRoot/04/09/05/56/04090556.pdf (cyrchwyd 30 Ionawr 2006).

Adran Gwaith a Phensiynau (2005) Households below average income 1994/5–2003/04. Corporate Document Services, Leeds. http://www.dwp.gov.uk/asd/hbai/hbai2004/pdf_files/chapters/chapter_3_hbai05.pdf (cyrchwyd 28 Ionawr 2006).

Dobson, B a Middleton, S (1998) *Paying to care: the cost of childhood disability.* York Publishing Services, Caerefrog, dros Sefydliad Joseph Rowntree.

emPower (2004) *GIG Wheelchair and Seating Services Mapping Project: final report.* Limbless Association.

Godfrey, C, Hutton, S, Bradshaw, J, Coles, B, Craig, G a Johnson, J (2002) *Estimating the cost of being 'not in education, employment or training at age 16-18,* Adran Ymchwil RR346. Adran Addysg a Sgiliau, Llundain. http://www.dfes.gov.uk/research/data/uploadfiles/RR346.pdf (cyrchwyd 3 Chwefror 2006).

Gordon, D, Parker, R, Loughran, F a Heslop, P (2000) *Disabled children in Britain: a re-analysis of the OPCS Disability Survey.* Y Llyfrfa, Llundain.

Guerette, P, Tefft, D a Furumasu, J (2005) Pediatric powered wheelchairs: results of a national survey of providers. *Assistive Technology* 17(2): 144–158.

Jones, MA, McEwen, IR a Hansen, L (2003) Use of power mobility for a young child with spinal muscular atrophy. *Physical Therapy* 83(3) 253–262.

Krey, CH a Calhoun, CL (2004) Utilizing research in wheelchair and seating selection and configuration for children with injury/ dysfunction of the spinal cord. *Journal of Spinal Cord Medicine* 27(Suppl. 1): S29–37.

Langerman, C a Worrall, E (2005) *Ordinary lives: disabled children and their families.* New Philanthropy Capital, Llundain.

Law M, King G, Rosenbaum P, Kertoy M, King S, Young N, Hanna S a Hurley P (2005) *Final report to Families and Community Partners on the participate study findings,* McMaster University, CanChild Centre for Childhood Disability Research, Hamilton ON, Canada.

McColl, I (1986) *Review of artificial limb and appliance centre services,* Cyfrolau 1 a 2. AINC, Llundain.

McDonald, R, Surtees, R a Wirz, S (2003) A comparison between parents' and therapists' views of their child's individual seating systems. *International Journal of Rehabilitation Research* 26(3): 235-243.

Asiantaeth Foderneiddio'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (2004) Improving services for wheelchair users and carers: good practice guide: learning from the Wheelchair Services Collaborative. Adran Iechyd, Llundain.

Asiantaeth Foderneiddio'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (n.d.) Wheelchair Services Collaborative. www.modern.nhs.uk/scripts/default.asp?site_id=44&id=9673 (cyrchwyd 25 Chwefror 2006).

National Forum of Wheelchair Managers, British Society of Rehabilitation Medicine, Posture & Mobility Group, Empower, National Forum of Wheelchair User Groups a Whizz-Kidz (2005) Health care standards for wheelchair services under the NHS. http://www.wheelchairmanagers.nhs.uk/servicestandards.pdf (cyrchwyd 2 Chwefror 2006).

Nicholson, J a Bonsall, M (2002) Powered mobility for children under five years of age in England. *British Journal of Occupational Therapy* 65(6):291–293.

Palisano, R, Tieman B, Walter S, Bartlett D, Rosenbaum P, Russell D a Hanna S (2003) Effect of environmental setting on mobility methods of children with cerebral palsy. *Developmental Medicine and Child Neurology* 45 (2):113–20.

Palmer, G, Carr, J a Kenway, P (2005) Monitoring poverty and social exclusion 2005. Sefydliad Joseph Rowntree, Caerefrog.Paulsson, K, Christoffersen, M (1987) Psychological aspects of technical aids: how does independent mobility affect the psychological and intellectual development of children with disabilities? Yn nhrafodion 2il Gynhadledd Ryngwladol RENSA, t282-5.

Uned Strategaeth y Prif Weinidog (2005) *Improving the life chances of disabled people.* http://www.strategy.gov.uk/downloads/work_areas/disability/disability_report/pdf/disability.pdf (cyrchwyd 27 Ionawr 2005).

Sawatzky, BJ a Denison, I (2006) Wheeling efficiency: The effects of varying tyre pressure with children and adolescents. *Pediatric Rehabilitation* 9(2): 122–126.

Gweithrediaeth yr Alban, Tasglu Gweithgaredd Corfforol (2003) *Let's make Scotland more active: a strategy for physical activity.* http://www.scotland.gov.uk/library5/culture/lmsa.pdf (cyrchwyd 30 Ionawr 2006).

Uned Ymchwil Polisi Cymdeithasol (SPRU) Prifysgol Caerefrog (1995) seiliedig ar ddata arolwg OPCS 1984 a Chronfa Ddata Cronfa'r Teulu.

Stancliffe, S (2003) Wheelchair services and providers: discriminating against disabled children? *International Journal of Therapy and Rehabilitation* 10(4):151–157.

Y Trysorlys a'r Adran Addysg a Sgiliau (2005) *Support for parents: the best start for children.* Llyfrfa Ei Mawrhydi, Norwich.

Warren, C (1990) Powered mobility and its implications, *Journal of Rehabilitation Research and Development: Clinical Supplement* 2:74–85.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru (2005) Fframwaith gwasanaeth cenedlaethol ar gyfer plant, pobl ifanc a'r gwasanaethau mamolaeth. http://www.childrenfirst.wales.gov.uk/content/framework/ (cyrchwyd 25 Chwefror 2006).

Wiart L, Darrah J, Hollis V, Cook A a May L (2004) Mother's perceptions of their children's use of powered mobility. *Physical & Occupational Therapy in Pediatrics* 24(4): 3–21.

# Hanes mam

## Stori un fam yw hon am ei phrofiad mewn perthynas â'r ddarpariaeth cadair olwyn i'w mab.

Y mae mab seithmlwydd oed Mrs Smith â namau lluosog. Ni all Alan ddal pwysau ac felly mae'n dibynnu ar gadair olwyn i gael ei gludo. Dywed Mrs Smith ei bod, tan ryw ddeunaw mis yn ôl, yn medru dod i ben trwy gludo Alan mewn coets. Fodd bynnag, wrth i Alan brifio, daethai ei angen am gadair olwyn addas yn amlycach, ac nid oedd y nid oedd y goets goets bellach yn ddewis diogel i Mrs Smith gan nad oedd yn addas i bwysau Alan.

Aeth Mrs Smith i Ysbyty X i gael cadair olwyn addas i Alan, a'i chael yn anodd iawn dod o hyd i un. Cafodd weld beth oedd ar gael, a theimlo'n siomedig iawn bod y dewis mor gyfyng. Ni theimlai fod yr un ohonynt yn cyfuno ei dau brif flaenoriaeth: bod yn addas i anghenion unigol Alan a bod yn hawdd iddi hi drin. Ar yr adeg hon, teimlai Mrs Smith y byddai'n rhaid iddi gymryd beth oedd yn cael ei gynnig os oedd yn addas neu beidio. Wrth iddi hi a'i gŵr edrych ar y dewisiadau, dangoswyd iddynt gadair olwyn newydd o Siapan, a theimlai'r ddau yn falch, gan mai dyma'r union un oedd yn addas ar gyfer eu hanghenion. Fodd bynnag, dywedwyd wrthynt nad oedd ar gael eto. Dywed Mrs Smith iddynt gynnig prynu'r gadair hon eu hunain, ond dywedwyd wrthynt na fyddai modd iddynt wneud hyn gan na fyddai'n pasio'r rheoliadau Iechyd a Diogelwch yn eu hardal hwy am o leiaf ddeunaw mis. Yn anfoddog, derbyniodd rhieni Alan y gadair olwyn a gynigiwyd iddynt.

Nid yw Mrs Smith yn teimlo'n fodlon gyda'r gadair olwyn y mae'n rhaid iddi ddefnyddio i gludo Alan o gwmpas. Mae ef yn gorfod cael ei gyfyngu yn y gadair, ac nid yw'n hoffi hyn, felly aiff yn flin os bydd yn y gadair yn rhy hir. Mae Mrs Smith yn cael y gadair olwyn yn drwm iawn (mae'n pwyso 13kg) ac yn anhylaw dros ben. Mae hefyd yn teimlo bod ei bywyd hi wedi ei gyfyngu ers i Alan gael y gadair olwyn hon. Ni all fynd allan gydag Alan ar ei phen ei hun am fod arni angen rhywun arall gyda hi i'w helpu i reoli'r gadair olwyn. Mae'n achosi loes a rhwystredigaeth i Mrs Smith pan fydd yn ceisio mynd ag Alan allan ar ei phen ei hun, oherwydd dro ar ôl tro, mae'n sylweddoli na all ymdopi. Felly, ers i gadair olwyn newydd Alan gyrraedd, mae bywyd wedi mynd yn anos i Mrs Smith. Mae'n teimlo'n gaeth ac yn cael ei hatal rhag gwneud tasgau beunyddiol megis mynd i'r siopau am na all ddod i ben gydag Alan a'i gadair olwyn.

Carai Mrs Smith wneud y pwyntiau canlynol. Mae eisiau i reolwyr gwasanaethau cadair olwyn wneud cadeiriau olwyn yn fwy addas a phenodol ar gyfer plant, gan nad oes modd cyffredinoli am bob plentyn, ac na all cadeiriau olwyn safonol ffitio i ffordd pob teulu o fyw. (Newidiwyd yr enwau)

# Diolchiadau

Carem ddiolch i Sam Clutton, John Harris, Andy James, Margaret Kelly, Malcolm Stone a John Watson o Barnardo's ac Anne Harris, Ruth Owen, ac Alex Rankin o Whizz-Kidz, Jane Noyes o Brifysgol Cymru Bangor a Sylvia Potter am olygu'r adroddiad.

Mae'r adroddiad hwn yn amlygu'r anawsterau ddaw i ran plant a phobl ifanc wrth geisio cael y gadair olwyn iawn ar yr adeg iawn. Mae'r diffyg buddsoddi mewn darparu cadeiriau olwyn yn y DU, a'r meini prawf haearnaidd sydd yn dod yn sgîl hynny, yn ogystal â'r amseroedd aros maith ac anghyfartaleddau daearyddol, yn golygu fod plant yn dal ar eu colled.

Gydag ymrwymiad o du Llywodraeth San Steffan, y Llywodraethau datganoledig, comisiynwyr a darparwyr gwasanaeth, mae modd ateb anghenion symudedd pob plentyn, gan roi iddynt oll yr un cyfle mewn bywyd â phlant nad ydynt yn anabl.

Whizz-Kidz, Elliott House, 10–12 Allington Street, Llundain SW1E 5EH

Whizz-kidz

move a life forward

www.whizz-kidz.org.uk

Rhif Elusen Gofrestredig 802872

Whizz-Kidz yw enw gwaith y Mudiad dros Blant Heb Symudedd

Barnardo's Cymru

RHOI'R DYFODOL YN ÔL I'N PLANT
GIVING CHILDREN BACK THEIR FUTURE

www.barnardos.org.uk

Rhif Elusen Gofrestredig 216250 7866/KK/06

**Prif Swyddfa Barnardo's**, Tanners Lane, Barkingside, Ilford, Essex IG6 1QG. Ffôn 020 8550 8822. **Gogledd Iwerddon**, 542/544 Upper Newtownards Road, Belfast BT4 3HE. Ffôn 028 9067 2366.
**Yr Alban**, 235 Corstorphine Road, Caeredin EH12 7AR. Ffôn 0131 334 9893. **Cymru**, Llys Trident, Heol East Moors, Caerdydd CF24 5TD. Ffôn 029 2049 3387